

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2025-26

Paratowyd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026 ar y cyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru. Fe'i gosodir gerbron y Senedd yn unol ag Atodlen 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac mae'n cynnwys materion fel y cyfarwyddir gan Drysorlys EF.

Paratowyd y Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026 gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol ag Atodlen 1 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac ar ffurf a gyfarwyddwyd gan Drysorlys EF.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. O ganlyniad, yn yr Adroddiad hwn, rydym yn cyfeirio'n benodol at yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru mewn adrannau y mae angen manylder cyfreithiol ynddynt.

Os oes angen unrhyw gymorth arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- e-bostiwch ni yn post@archwilio.cymru

Gallwch gysylltu â ni yn Gymraeg neu yn Saesneg – byddwn yn ymateb gan ddefnyddio'r un iaith â chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cipolwg ar y flwyddyn



Cyflwynwyd dros
800
o farnau archwilio
ar gyfrifon cyrff
cyhoeddus



Cyhoeddwyd
16
o allbynnau
adroddiadau
cenedlaethol o
wahanol fathau



Cyhoeddwyd dros
150
o adroddiadau
archwilio
perfformiad lleol



Cynlluniau grant
ardystiedig
gwerth bron i
£1.5
biliwn

Ebrill

Cyhoeddwyd ein [Cynllun Blynyddol ar gyfer 2025-26](#), yn amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer cyfnod llawn olaf 12 mis o gyfnod Adrian Crompton fel Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adroddwyd ar sut mae cyrff cyhoeddus yn meddwl ac yn gweithredu ar gyfer y tymor hir, gyda [Gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#).

Mai

Daethpwyd i'r casgliad nad oedd Llywodraeth Cymru yn rhoi digon o ystyriaeth i wneud y defnydd gorau o gyfraniadau adrannau at y canlyniadau dymunol o'r [Cynllun a strategaeth buddsoddi yn seilwaith Cymru](#).

Cyhoeddodd y cyntaf o gyfres o bedwar adroddiad ar Heriau i'r Sector Diwylliant, yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd ariannol yn [Llyfrgell Genedlaethol Cymru](#), [Chwaraeon Cymru](#), [Cyngor Celfyddydau Cymru](#) ac [Amgueddfa Cymru](#).

Mehefin

Gyda dim ond un eithriad (lle nodwyd problemau gyda'r cyfrifon drafft), cwblhawyd archwiliadau o holl gyfrifon y GIG 2024-25 erbyn y dyddiad cau cynharach sef 30 Mehefin.

Cyhoeddwyd [Rhestr wirio ar gyfer Aelodau Bwrdd y GIG](#) i gefnogi adnabod, cyflwyno a monitro [Arbedion cost cynaliadwy](#).

Gorffennaf

Nodwyd cyfleoedd i wella gwerth am arian [dulliau cynghorau o ateb y galw am lety dros dro](#).

Lansiwyd templed adrodd archwilio perfformiad newydd, wedi'i gynllunio i gael ffeithiau a ffigurau allweddol mewn ffordd gliriach, gan gynnwys ynghylch gwariant a chanlyniadau.

Awst

Adroddwyd ar wendidau yn y ffordd y rheolodd Llywodraeth Cymru ei chyllid grant ar gyfer Canolfan Forol Porthcawl a fethodd.

Lansiwyd oriau cywasgedig yn ffurfiol fel budd-dal sydd ar gael i holl staff Archwilio Cymru, yn dilyn ymarfer peilot llwyddiannus lle nododd cyfranogwyr well llesiant, cymhelliant a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

Medi

Cyhoeddwyd adroddiad dilynol ar werthoedd ac ymddygiadau yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Mynegwyd bod byrddau iechyd yng Nghymru yn parhau i brofi heriau ariannol sylweddol a diweddarwyd ein hofferyn data sy'n darparu rhagor o wybodaeth am sefyllfaoedd ariannol cyfredol cyrff y GIG.

Hydref

Cyhoeddwyd ein Hadroddiad Interim, lle gwnaethom adrodd ar gynnydd cynnar o fenter sy'n archwilio'r defnydd posibl o Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) er mwyn helpu i wella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd ein gwaith.

Cyflawnwyd sgôr mynegai ymgysylltu cyffredinol o 73% yn ein harolwg staff blynyddol, wyth pwynt canran yn uwch na meincnod y Gwasanaeth Sifil.

Tachwedd

Adroddwyd ar Ddull Cyfoeth Naturiol Cymru o ddynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Rhodddwyd tystiolaeth i Bwyllgor Cyllid y Senedd i gefnogi ei waith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27.

Rhagfyr

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad dysgu ar y cyd gan ddod â chynrychiolwyr o bob cwr o'r sector llywodraeth leol ynghyd i Archwilio'r heriau a'r cyfleoedd i gyflwyno cyfrifon llywodraeth leol o ansawdd da ac amserol.

Drwy Gyfres o bodlediadau, cynigiwyd persbectif Adrian Crompton fel yr Archwilydd Cyffredinol sy'n ymadael ar yr heriau a'r cyfleoedd parhaus i wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Ionawr

Gwahoddwyd safbwyntiau ar ein hamcanion cydraddoldeb ar gyfer 2026-2030 i'n helpu i gyflawni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol yn well.

Argymhellwyd bod cynghorau'n adolygu eu trefniadau yn erbyn rhestr wirio o agweddau allweddol ar gynllunio cyfalaf cadarn, wedi'i lywio gan ein gwaith archwilio.

Chwefror

Adroddwyd ar y broses o wneud penderfyniadau ar gyfer canolfan ganser newydd Felindre.

Cyhoeddwyd diweddiariad ar gynnydd tuag at darged tai fforddiadwy Llywodraeth Cymru.

Mawrth

Adroddwyd ar y graddau y mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu argymhellion archwilio blaenorol wrth Reoli ei Chronfa Integreiddio Rhanbarthol.

Lansiwyd adran newydd o'n gwefan o'r enw Mewnwelediadau, lle rydym yn rhannu cynnwys a gynlluniwyd er mwyn helpu'r darllenydd i gael dealltwriaeth ddyfnach o'n gwaith archwilio a'r materion allweddol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

Cymeradwyodd y Senedd enwebiad Catherine Mealing-Jones yn Archwilydd Cyffredinol newydd Cymru, a fydd yn dechrau yn ei swydd ym mis Gorffennaf 2026.

Cynnwys a chanllaw i ddarllenwyr

Adroddiad Perfformiad

Adolygiad o'n gwaith yn 2025-26, gan gynnwys dadansoddiad o'n darpariaeth a'n perfformiad, a'n sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn.

Trosolwg ar y perfformiad

Crynodeb o bwy ydym ni, yr hyn a wnawn a'n sefyllfa strategol, ochr yn ochr ag ystyriaethau a gwybodaeth allweddol am sut y gwnaethom berfformio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud	8
Ein gweledigaeth strategol, meysydd ffocws a risgiau allweddol	11
Datganiadau gan yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd y Bwrdd ar ein perfformiad yn 2025-26	12
Dangosyddion perfformiad allweddol	17

Dadansoddi perfformiad

Asesiad o'r graddau y cyflawnwyd y blaenoriaethau a'r rhaglenni gwaith a nodir yn ein Cynllun Blynyddol 2025-26.

Sylwadau ynghylch cyflawni ein rhaglenni gwaith archwilio	22
Y cynnydd a wnaed yn ein meysydd ffocws ar gyfer gwella busnes	40
Crynodeb o'n defnydd o adnoddau yn ystod y cyfnod adrodd	52

Adroddiad Atebolrwydd

Datganiadau ac adroddiadau allweddol sy'n ein galluogi i fodloni gofynion atebolrwydd a dangos cydymffurfiaeth â llywodraethu corfforaethol da.

Adroddiad llywodraethu corfforaethol

Esboniad o gyfansoddiad a threfniadaeth ein strwythurau llywodraethu a sut maent yn ein cefnogi i gyflawni ein hamcanion.

Adroddiad y Cyfarwyddwyr	64
Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu	66
Datganiad llywodraethu	68

Adroddiad taliadau cydnabyddiaeth staff

Ein polisi taliadau cydnabyddiaeth, manylion am daliadau cydnabyddiaeth a buddiannau pensiwn aelodau'r Bwrdd, ei bwyllgorau a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol, ein datgeliad cyflog teg, ac adroddiad ynghylch ein staffio.

Adroddiad taliadau cydnabyddiaeth	82
Adroddiad staff	89

Alldro adnoddau ac adroddiad yr archwilydd

Ein crynodeb o'r alldro adnoddau, trosolwg ar dueddiadau yn ein gwariant hirdymor, ac adroddiad yr archwilydd annibynnol, gan gynnwys ei farn ar y datganiadau ariannol, rheoleidd-dra a materion eraill.

Crynodeb o alldro adnoddau a nodiadau cysylltiedig	95
Adroddiad yr archwilydd annibynnol i'r Senedd	99

Datganiadau Ariannol

Datganiadau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru, ynghyd â nodiadau ategol ac esboniadol.

Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr	108
Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol	109
Datganiad Llifoedd Arian Parod	111
Datganiad o'r Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr	112
Nodiadau i'r Datganiadau Arianno	112
Geirfa Termiau	134

Atodiadau

1	Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch Datgelu Gwybodaeth	137
---	---	-----



Adroddiad Perfformiad

Adolygiad o'n gwaith yn 2025-26, gan gynnwys dadansoddiad o'n darpariaeth a'n perfformiad, a'n sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn.

A handwritten signature in white ink, reading "Adrian Crompton".

Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Swyddog Cyfrifyddu

25 Mehefin 2026

01

Trosolwg ar y perfformiad

Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

- 1 Archwilydd Cyffredinol Cymru yw'r archwilydd allanol statudol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru. Yr Archwilydd Cyffredinol sy'n gyfrifol am archwilio mwyafrif yr arian cyhoeddus a warir yng Nghymru.
- 2 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu adnoddau, megis staff, er mwyn arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac mae'n monitro ac yn cynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Ar hyn o bryd, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflogi oddeutu 300 o aelodau staff.
- 3 Gyda'n gilydd, fel Archwilio Cymru, rydym yn archwilio oddeutu £28 biliwn o incwm a gwariant.

Ein diben yw:



Rhoi sicrwydd i bobl bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda



Esbonio sut mae'r arian hwnnw'n cael ei wario



Ysbrydoli'r sector cyhoeddus i wella

Rydym yn ymgymryd â gwaith archwilio lleol a chenedlaethol ar draws amrywiaeth o gyrff cyhoeddus

- 4 Mae ein Cynllun Blynyddol diweddaraf yn rhoi mwy o fanylion am yr amrywiaeth o gyrff yr ydym yn eu harchwilio a sut yr ydym yn dilyn y bunt gyhoeddus yng Nghymru. Mae ein gwaith archwilio yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd, sy'n craffu ar sut mae adnoddau yn cael eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae ein gwaith hefyd yn llywio gwaith pwyllgorau eraill y Senedd, y mae eu cyloedd gwaith ehangach yn cynnwys craffu ar bolisiau Llywodraeth Cymru, dal Gweinidogion i gyfrif, ac archwilio deddfwriaeth arfaethedig.

- 5 Drwy gydol y flwyddyn, rydym yn mynychu cyfarfodydd pwyllgorau archwilio a chraffu cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn rheolaidd i ddarparu sesiynau briffio ac adrodd ar ein gwaith archwilio.
- 6 Mae ein rhaglenni gwaith arfaethedig yn cadw rhywfaint o hyblygrwydd er mwyn ymateb i amgylchiadau a blaenoriaethau sy'n newid, a materion newydd sy'n peri pryder cyhoeddus neu seneddol.
- 7 Rydym yn nodi arferion da ar draws ehangder llawn ein gwaith archwilio ac yn lledaenu hyn drwy amrywiaeth o gyfryngau, gan gynnwys adroddiadau, blogiau, podlediadau, a seminarau a gweminarau dysgu ar y cyd
- 8 Un elfen â phwyslais ein gwaith arferion da yw hwyluso sgysiau rhwng darparwyr gwasanaeth lle rhennir yr hyn a ddysgir o'n gwaith archwilio ac o'u profiadau cymharol. Rydym hefyd yn ceisio dod â safbwyntiau a phrofiadau defnyddwyr gwasanaethau ac arbenigwyr byd-eang i'r sgysiau hyn.

Ein gwaith craidd



Undertaking local audit work at over 800 public bodies, including:

- Audits of accounts
- Local performance audit work
- Sustainable development principle examinations



Delivering a programme of national studies



Certifying grant schemes worth approaching £1.5 billion



Supporting effective scrutiny including the work of the Senedd committees



Sharing good practice and audit learning to support public service delivery



Facilitating the detection of fraud and error through the National Fraud Initiative



Approving around £2 billion of payments out of the WCF every month

Rydym yn gweithredu'n annibynnol ar y llywodraeth

- 9 Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd gan y Senedd na'r llywodraeth wrth arfer ei swyddogaethau archwilio.
- 10 Yr Archwilydd Cyffredinol a'n Bwrdd sy'n gyfrifol am bennu a goruchwyllo cyfeiriad strategol y sefydliad.
- 11 Mae'r Bwrdd yn dwyn yr Archwilydd Cyffredinol i gyfrif yn ei swyddogaeth fel Prif Weithredwr Swyddfa Archwilio Cymru ac yn ei gefnogi i gyflawni ei swyddogaeth fel Swyddog Cyfrifyddu. Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Weithredwr yn atebol yn bersonol i Bwyllgor Cyllid y Senedd ar faterion megis cydymffurfio â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.
- 12 Mae ein Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn cynghori'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys yn rhinwedd ei swydd fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu.
- 13 Mae ein Cynllun Cyhoeddiadau yn cynnwys diagram sy'n dangos ein strwythur sefydliadol. Ceir gwybodaeth fanylach am ein trefniadau llywodraethu yn adran Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol yr Adroddiad hwn.

Ein gweledigaeth strategol, meysydd ffocws a risgiau allweddol

Ein gweledigaeth yw cynyddu ein heffaith drwy:

Fully exploiting our unique perspective, expertise and depth of insight

Strengthening our position as an authoritative, trusted and independent voice

Increasing our visibility, influence, and relevance

Being a model organisation for the public sector in Wales and beyond

- 14 Yn ein Strategaeth ar gyfer 2022 i 2027, rydym wedi nodi tri maes pwyslais lle byddwn yn blaenoriaethu camau gweithredu er mwyn helpu Archwilio Cymru i gyflawni ei weledigaeth gyffredinol.

Ein meysydd ffocws



A strategic, dynamic, and high-quality audit programme



A targeted and impactful approach to communications and influencing



A culture and operating model that enables us to thrive

- 15 Mae ein Cynllun Blynyddol diweddaraf yn rhoi manylion am:
- Yr hyn yr ydym yn ei ystyried yn elfennau pwysig o'n hamgylchedd gweithredu presennol, gan gynnwys amrywiaeth o ffactorau a all ddylanwadu ar y broses o gyflawni ein gwaith i raddau amrywiol.
 - Y meysydd allweddol lle gall risgiau godi a bygwth cyflawni ein gwaith yn llwyddiannus.
 - Sut rydym yn mesur ac yn adrodd ar ein perfformiad.

Ein risgiau allweddol yn 2025-26

- 16 Y Bwrdd sy'n goruchwyllo'r broses rheoli risgiau yn Archwilio Cymru. Cefnogir y Bwrdd gan Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn gyfrifol am reoli risgiau strategol o ddydd i ddydd sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a/neu Swyddfa Archwilio Cymru.
- 17 Amrywiodd nifer o risgiau strategol yn ystod y cyfnod adrodd ac yn arbennig roeddent yn cymryd amser y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Roedd y rhain yn cynnwys y risgiau a nodir isod, a oedd yn destun adolygiadau manwl gan y Pwyllgor:
 - a Sicrhau bod gennym strategaeth a chynllun gweithlu cyfannol a chadarn ar gyfer denu, cadw a datblygu staff ar draws y sefydliad cyfan.
 - b Gall amseriad y cyfnod cyn yr etholiad gyfyngu ar welededd ac effaith strategol negeseuon etifeddol yr Archwilydd Cyffredinol.
 - c Sefydlu perthnasoedd effeithiol â Senedd a Llywodraeth Cymru sydd wedi'u trawsnewid yn sylfaenol yn dilyn etholiadau 2026.
- 18 Mae'r Archwilydd Cyffredinol, fel Swyddog Cyfrifyddu, yn fodlon bod y risgiau hyn wedi'u monitro a'u rheoli'n effeithiol yn ystod y flwyddyn.
- 19 Ceir rhagor o wybodaeth am sut cafodd y risgiau hyn eu lliniaru, a risgiau newydd a pharhaus yn 2026-27, yn adran Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol yr Adroddiad hwn a thrwy cofnodion ein Bwrdd.

Datganiad gan yr Archwilydd Cyffredinol ar ein perfformiad yn 2025-26

Rydym yn falch o gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2025-26.

Ochr yn ochr â'n datganiadau ariannol ac atebolrwydd, mae'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon hwn yn rhoi crynodeb o'r cynnydd a wnaed gennym wrth gyflawni'r rhaglenni gwaith archwilio a nodwyd yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2025-26.

Yn ystod y cyfnod adrodd, gwnaethom gyflwyno rhaglen gynhwysfawr ac effeithiol o waith archwilio. Mae'n bleser gennyf gyflwyno detholiad o astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn i roi blas ar y gwaith a wnaed gennym eleni a'r effaith y mae'r gwaith hwnnw wedi'i chael.

Cyflwynwyd bron pob un o'n barn archwilio cyfrifon erbyn y dyddiad cau statudol neu'r dyddiad cau y cytunwyd arno, lle cyflwynodd cyrff archwiliedig gyfrifon drafft o ansawdd da ac ymatebodd yn amserol i ymholiadau archwilio.

Fodd bynnag, dim ond hanner yr holl gyrff llywodraeth leol a gyflawnodd y dyddiad cau statudol ar gyfer paratoi eu cyfrifon ar gyfer 2024-25; dirywiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol a'r flwyddyn cyn hynny. O ganlyniad, ysgrifennais yn ddiweddar at bob corff yn rhybuddio bod oedi cynyddol wrth baratoi cyfrifon statudol yn peri risg wirioneddol i dryloywder ariannol a llywodraethu da ar draws y sector. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda chyrff llywodraeth leol, rhwydweithiau proffesiynol a Llywodraeth Cymru yn 2026-27 i gefnogi gwelliant, rhannu arfer da a helpu i ailadeiladu proses gyfrifon amserol.

Ochr yn ochr â'n gwaith cyfrifon, gwnaethom gyflwyno 16 o allbynnau adroddiadau cenedlaethol o'n rhaglen astudiaethau, a chwaraeodd ran allweddol wrth gefnogi gwaith pwyllgorau'r Senedd. Gwnaethom hefyd gynnydd sylweddol tuag at ddileu'r ôl-groniad ar ôl y pandemig o ran cyflawni archwiliadau perfformiad lleol, gan barhau i lunio ein gwaith i fynd i'r afael â'r heriau esblygol y mae cyrff archwiliedig yn eu hwynebu.

Yn 2025-26, roeddem yn arbennig o falch o gyflawni'r set gryfaf o sgoriau ansawdd archwilio yn ein deng mlynedd o weithio gydag Adran Sicrhau Ansawdd Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr.

Gwnaethom hefyd gymryd camau sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf i wella sut mae adroddiadau Archwilio Cymru yn cael eu hysgrifennu. Gwnaethom ddatblygu a chyflwyno safonau ysgrifennu mwy cadarn i gryfhau eglurder, hygyrchedd ac effaith ein hallbynnau. Tua diwedd y flwyddyn, gwnaethom lansio adran newydd ategol o'n gwefan, o'r enw Mewnwelediadau, lle rydym yn egluro canfyddiadau allweddol archwilio mewn iaith glir, yn darparu delweddïadau data ac yn cynnig pecynnau cymorth a chanllawiau i gefnogi gwneud penderfyniadau gwell.

Ar ddechrau 2026, comisiynwyd contractwr allanol i gynnal arolwg annibynnol o'n rhanddeiliaid allweddol i gasglu eu barn ar werth ac effaith ein gwaith archwilio. Roedd yr ymarfer yn cwmpasu rolau allweddol gan gynnwys Prif Weithredwyr, Arweinwyr Cynghorau, Cadeiryddion Byrddau, Cyfarwyddwyr Cyllid, Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a'r prif gysylltiadau archwilio perfformiad ym mhob prif gorff archwiliedig. Roeddem yn ddiolchgar o gael adborth adeiladol, addysgiadol a chadarnhaol yn bennaf gan 112 o unigolion ar draws 65 o gyrff archwiliedig gwahanol, gyda chynrychiolaeth dda ar draws pob sector.

Gwelodd y flwyddyn hon gynnydd mawr hefyd mewn gohebiaeth newydd ac achosion chwythu'r chwiban allanol o'i gymharu â 2024-25. Dyma lwybrau y gall aelodau'r cyhoedd ac eraill godi pryderon posibl ynghylch defnyddio arian cyhoeddus gyda ni er mwyn llywio ein gwaith archwilio. Ymddengys bod y cynnydd hwn yn cydberthyn â chanlyniadau arolwg diweddar Omnibws Cymru, a ddangosodd fod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Archwilio Cymru ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol yn ymddangos i fod yn cynyddu.

Yr Adroddiad Blynyddol hwn yw'r olaf yn fy nghyfnod fel Archwilydd Cyffredinol. Bu'n ffraind fawr ers 2018 gwasanaethu fel Archwilydd Cyffredinol Cymru. Drwy gyfres o bodlediadau a llythyr diweddar i'r Senedd, rwyf wedi rhoi fy safbwynt diwedd tymor ar yr heriau a'r cyfleoedd parhaus ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus.

Byddai ymgymryd â rôl Archwilydd Cyffredinol yn amhosibl heb gymorth a chefnogaeth llawer o bobl. Mae sector cyhoeddus Cymru wedi'i fendithio â llawer o weision cyhoeddus rhyfeddol y bu'n ffraind i mi weithio gyda nhw. I Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, dan arweinyddiaeth Dr Ian Rees, rwy'n ddiolchgar iawn am eu her, eu cyngor a'u cefnogaeth dros yr wyth mlynedd diwethaf. Ac yn anad dim, hoffwn ddiolch i staff Archwilio Cymru. Mae unrhyw Archwilydd Cyffredinol, ac yn sicr yr un hwn, yn dibynnu ar eu proffesiynoldeb, eu hymroddiad a'u hiwmor da. Rydw i yn eu dyled.

Rwy'n dymuno'n dda i Catherine Mealing-Jones yn ei rôl fel yr Archwilydd Cyffredinol nesaf. Rwy'n siŵr, o dan ei harweinyddiaeth a chyda chefnogaeth barhaus y Bwrdd, y bydd Archwilio Cymru yn parhau i fynd o nerth i nerth.



Adrian Crompton
Archwilydd
Cyffredinol Cymru

Datganiad gan y Cadeirydd ar ein perfformiad yn 2025-26

Roedd 2025-26 yn Archwilio Cymru yn flwyddyn a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar baratoi ar gyfer y dyfodol. Cymerwyd nifer o gamau nodedig, gan gynnwys:

- Gwnaethom sefydlu Cyfarwyddiaeth Moderneiddio ac Effaith Archwilio newydd a rhoi ffocws arbennig ar themâu a nodwyd fel rhai hanfodol wrth lunio ein diwylliant a'n model gweithredu tymor hwy. Roedd y rhain yn cynnwys datblygiadau digidol a sgiliau a siâp ein gweithlu.
- O fis Mawrth 2025 ymlaen, dechreuon ni gyflwyno Microsoft Copilot, sef offeryn Deallusrwydd Artiffisial (AI), i gefnogi sut mae ein gwaith yn cael ei gynllunio a'i gyflwyno ac i gefnogi cynhyrchiant personol. I ddechrau, roedd y prosiect yn cynnwys carfan amrywiol o 50 o gydweithwyr mewn cynllun peilot strwythuredig i brofi galluoedd AI mewn cyd-destunau archwilio a chorfforaethol.
- Fel rhan o'r gwaith hwn, rhoddwyd mesurau diogelwch cryf ar waith i sicrhau bod AI yn cael ei ddefnyddio'n briodol. Cymeradwywyd canllawiau clir gan yr Archwilydd Cyffredinol a'r Bwrdd sy'n cwmpasu diogelu data, cyfrinachedd, defnydd moesegol a phwysigrwydd adolygu allbynnau'n ofalus gan staff. Rhaid i gasgliadau a dyfarniadau aros gyda'n pobl bob amser. Drwy fabwysiadu AI mewn ffordd reoledig a moesegol, mae Archwilio Cymru yn gwella ac yn moderneiddio ein harferion gwaith ac yn helpu i adeiladu gallu digidol ar draws y sefydliad.
- Hefyd, monitrodd y Bwrdd a'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol ystod ehangedig o gamau gweithredu a mesurau perfformiad i sicrhau ein bod yn cyflwyno strategaeth a chynllun gweithlu cyfannol a chadarn ar gyfer denu, cadw a datblygu staff ar draws y sefydliad cyfan.

Ym mis Tachwedd 2025, roeddem wrth ein bodd yn gweld canlyniadau ein harolwg staff blynyddol 2025 gan Archwilio Cymru. Cynyddodd y sgoriau ar draws bron pob thema arolwg, gan barhau â'r duedd a welwyd yn 2024. Cyrhaeddodd ein Mynegai Ymgysylltu 73%; ein sgôr uchaf ers i ni ddechrau cofnodi'r mesur hwn yn 2017. Rydym yn ymfalchio'n fawr yn y diwylliant sefydliadol cadarnhaol y mae'r canlyniadau hyn yn ei ddisgrifio. Mae'r canlyniadau hefyd yn dweud wrthym ein bod wedi llwyddo i fynd i'r afael â llawer o'r materion a godwyd drwy arolygon cyfatebol mewn blynyddoedd blaenorol.

Fodd bynnag, rydym yn ymdrechu i wella'n barhaus, a gwnaeth yr arolwg dynnu sylw at rai meysydd lle mae angen rhywfaint o welliant o hyd, gan gynnwys drwy fireinio ein dull o recriwtio. O ganlyniad, mae rhai prosiectau gwella penodol ar y gweill yn y meysydd hyn ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, rydym yn ymdrechu i wella'n barhaus, a gwnaeth yr arolwg dynnu sylw at rai meysydd lle mae angen rhywfaint o welliant o hyd, gan gynnwys drwy fireinio ein dull o recriwtio. Mae rhai prosiectau gwella penodol ar y gweill yn y meysydd hyn ar hyn o bryd.

Ym mis Rhagfyr 2025, cyhoeddwyd ein trydydd adroddiad ar gydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau, ochr yn ochr â'n blaengynllun ar gyfer cyflawni'r Ddyletswydd dros y tair blynedd nesaf. Yn yr un modd, ym mis Ebrill 2026, cyhoeddwyd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (SEP) newydd ar gyfer 2026-2030. Yn y ddau gynllun, rydym yn ymrwmo i amcanion newydd i'n helpu i gyflawni ein dyletswyddau statudol orau yn y meysydd hyn yn y blynyddoedd i ddod.

Ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, datblygwyd ein hamcanion newydd gyda mewnbwn gan Pawb, ein grŵp buddiant cydraddoldeb staff, ac ymgynghoriad cyhoeddus lle gwnaethom geisio barn gan ystod eang o randdeiliaid perthnasol. Rwy'n ddiolchgar am yr holl adborth a gafwyd, a ystyriwyd yn ofalus cyn cwblhau'r cynllun.

Yn ystod y flwyddyn, rheolwyd risgiau strategol yn dda, gan gynnwys mewn perthynas â'n strategaeth gweithlu ac amseriad y cyfnod cyn yr etholiad a'i effaith bosibl ar archwiliad Adrian a negeseuon etifeddiaeth. Roedd y Bwrdd hefyd yn fodlon ag ansawdd y wybodaeth reoli a gafodd. Hoffwn dalu teyrnged i staff Archwilio Cymru am eu holl waith caled a'u hymroddiad drwy gydol y flwyddyn.

Ac, wrth gwrs, yng ngoleuni ei ymadawiad sydd ar fin digwydd, ar ran pob un ohonom yn Archwilio Cymru, hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Adrian. Dros yr wyth mlynedd diwethaf, bu'n dod ag awdurdod, ymrwymiad, arweinyddiaeth ymroddedig ac ystyriol, gan gryfhau swydd Archwilydd Cyffredinol a helpu i osod Archwilio Cymru fel sefydliad hyd yn oed yn fwy uchel ei barch a dylanwadol. Rydym yn dymuno'n dda iddo ar gyfer y dyfodol.



Dr Ian Rees
Cadeirydd Swyddfa
Archwilio Cymru

Dangosyddion perfformiad allweddol

- 20 Roedd ein Cynllun blynyddol ar gyfer 2025-26 yn cynnwys fframwaith o ddangosyddion perfformiad allweddol a thargedau cysylltiedig.
- 21 Yn ein Hadroddiad Interim, gwnaethom ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf yng nghanol y flwyddyn ar y cynnydd a wnaed dros y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2024 tuag at gyflawni'r targedau hyn.
- 22 Dengys yr arddangosyn canlynol y sefyllfa ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2025-26. Nid yw'r data dangosyddion perfformiad allweddol wedi bod yn destun archwiliad. Yn yr arddangosyn, mae rhai rhifau wedi'u talgrynnu i'w gwneud yn haws eu darllen a'u cymharu, ac mae'r dangosyddion perfformiad allweddol yn gydnaws â'r meysydd ffocws strategol y maent yn ymwneud â nhw.
- 23 Yn gyffredinol, yn 2025-26 gwnaethom gyflawni ein targedau ar gyfer 9 o'r 18 o ddangosyddion perfformiad allweddol.
- 24 Mae rhannau perthnasol o'r adran Dadansoddi Perfformiad o'r Adroddiad hwn yn darparu sylwadau pellach ar ein perfformiad yn erbyn ein dangosyddion perfformiad allweddol.

Y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer ein dangosyddion perfformiad allweddol yn 2025-26

Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel

Rhif	Dangosydd	Disgrifiad	Targed 2025-26	Perfformiad 2024-25	Perfformiad 2025-26
1	Archwilio cyfrifon	Y gyfran o gynhyrchion archwilio a gyflawnwyd o'u cymharu â'r terfyn amser statudol neu y cytunwyd arno.	100%	99%	94% ¹
2	Archwilio perfformiad	Cyfran o gynhyrchion archwilio allweddol eraill a ddarparwyd yn unol â'r amserlen gynlluniedig ar gyfer sicrhau adrodd amserol ac effeithiol. ²	90%	81%	83%

● Cyrhaeddodd ein targed ● Angen gwelliant ● Angen gwelliant sylweddol

- 1 Mae'r gostyngiad hwn mewn perfformiad yn adlewyrchu'r nifer fwy o faterion archwilio sy'n codi a phapurau gwaith ategol o ansawdd gwael mewn nifer bach o gyrff archwiliedig.
- 2 Mae mesur yn ystyried graddfa ac effaith unrhyw oedi y tu hwnt i amserlenni cynlluniedig ac a ydynt yn ymwneud â ffactorau y tu hwnt i'n rheolaeth uniongyrchol.

Rhif	Dangosydd	Disgrifiad	Targed 2025-26	Perfformiad 2024-25	Perfformiad 2025-26
3	Ansawdd	Nifer yr archwiliadau a adolygwyd a ddarperir yn unol â safonau ansawdd disgwylidig. ³	Mae'r holl archwiliadau a samplwyd yn y ddau gategori ansawdd archwilio uchaf	6 allan o 8	7 allan o 8
4	Hygrededd	Cyfran y rhanddeiliaid sy'n ein hystyried yn adroddwr annibynnol ac awdurdodol ar lywodraeth a stiwardiaeth arian ac asedau cyhoeddus. ⁴	O leiaf 90%	76%	90%
5	Darparu mewnwelediad	Cyfran y rhanddeiliaid a ddywedodd eu bod, drwy ein gwaith wedi cael mewnwelediad defnyddiol na fyddent wedi ei gael fel arall.	O leiaf 80%	78%	78%
6	Sbarduno gwelliant	Cyfran y rhanddeiliaid sy'n credu bod ein gwaith wedi arwain at welliannau i'r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus.	O leiaf 80%	62%	70%
7	Yr arbedion a nodwyd	Gwerth arbedion posibl, enillion cynhyrchiant a buddion ariannol eraill a nodwyd drwy ein gwaith.	O leiaf £30miliwn yn ystod 2023-2026	£16 miliwn	£46 miliwn

● Cyrhaeddodd ein ● Angen gwelliant ● Angen gwelliant sylweddol

3 [Safonau Rhyngwladol ar Archwilio \(y DU\)](#) ar gyfer gwaith archwilio cyfrifon, [Safonau proffesiynol INTOSAI](#) ar gyfer gwaith archwilio perfformiad, a [safonau moesegol](#) ac ansawdd y Cyngor Adrodd Ariannol ar gyfer yr holl waith.

4 Mae data perfformiad 2025-26 ar gyfer dangosyddion perfformiad allweddol 4-6 yn deillio o ymarfer ymchwil rhanddeiliaid annibynnol cynhwysfawr a gynhaliwyd ddechrau 2026. Cafwyd ymatebion gan 112 o unigolion ar draws 65 o sefydliadau gwahanol.

Dull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu

Rhif	Dangosydd	Disgrifiad	Targed 2025-26	Perfformiad 2024-25	Perfformiad 2025-26
8	Allbynnau arfer da	Cyfran y rhanddeiliaid sy'n graddio allbynnau ein digwyddiadau arfer da yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn.	O leiaf 90%	100%	100%
9	Ymweliadau â'n gwefan	Nifer yr ymweliadau â'n gwefan pan fo o leiaf un weithred yn cael ei chyflawni, e.e. lawrlwytho adroddiad, clicio ar fideo.	53,000 bob blwyddyn	81,000	69,000
10	Y cyfryngau cymdeithasol	Nifer yr ymgysylltiadau ar y cyfryngau cymdeithasol h.y. rhyngweithio â'n postiadau megis eu hoffi, gwneud sylw, neu rannu.	4,000 bob blwyddyn	3,500	5,300
11	Rhannu'r hyn a ddysgir o archwilio	Nifer yr achosion lle rydym yn cyflwyno'r hyn a ddysgwyd o archwilio i gynulleidfaoedd allanol. ⁵	50 bob blwyddyn	53	58

● Cyrhaeddodd ein targed
 ● Angen gwelliant
 ● Angen gwelliant sylweddol

5 Y tu hwnt i ymgysylltu arferol â chyrrff archwiliedig a chan gynnwys, er enghraifft, mewn gweithgorau polisi allweddol neu ddigwyddiadau a gynhelir yn allanol.

Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffnnu

Rhif	Dangosydd	Disgrifiad	Targed 2025-26	Perfformiad 2024-25	Perfformiad 2025-26
12	Ymgysylltu â chyflogeion	Sgôr mynegai ymgysylltu arolwg staff blynyddol.	O leiaf y sgôr meincnod canolrifol ar gyfer arolwg diweddaraf y <u>Gwasanaeth Sifil</u> ⁶	71%	73%
13	Trosiant	Cyfran y cyflogeion sy'n gadael Archwilio Cymru yn wirfoddol bob blwyddyn.	Rhwng 5% a 10%	5.8%	3.8% ⁷
14	Absenoldeb oherwydd salwch	Cyfran o gyfanswm yr amser a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch.	Llai na 4%	3.9%	3.3%
15	Balans ariannol	Amrywiant y gwariant net o'r gyllideb a nodir yn ein Hamcangyfrif.	Tanwariant o lai na 2% o'r gyllideb	3.2%	3.2% ⁸
16	Arbedion costau	Gwerth arbedion costau yn ystod y flwyddyn a gyflawnwyd ar draws y busnes.	£200,000 fel y nodir yn ein Hamcangyfrif 2025-26	Wedi rhagori ar darged cynilion di-dâl o £400,000	Wedi rhagori ar darged cynilion di-dâl o £200,000

● Cyrhaeddodd ein targed ● Angen gwelliant ● Angen gwelliant sylweddol

6 Meincnod Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil (CSPS) ym mis Hydref 2025 oedd 65%.

7 Arweiniodd newidiadau yn y farchnad archwilio at berfformiad yn gostwng islaw'r ystod darged yn 2025-26; mae ein partneriaid Fforwm Archwilio Cyhoeddus i gyd yn profi lefelau trosiant isel tebyg ar hyn o bryd. O ganlyniad, yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2026-27, gwnaethom ymestyn yr ystod darged ar gyfer y Dangosydd Perfformiad Allweddol hwn i 'Lai na 10%'.

8 Mae'r gwarged uchod o 3.2% wedi'i ysgogi'n bennaf gan arbedion o swyddi gwag a thanwariant ar gyllidebau nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogau. Er mwyn osgoi ailadrodd yn y blynyddoedd i ddod, mae hyfforddiant pellach yn cael ei ddarparu i ddeiliaid cyllidebau gyda mwy o atebolrwydd am reoli alldro.

Rhif	Dangosydd	Disgrifiad	Targed 2025-26	Perfformiad 2024-25	Perfformiad 2025-26
17	Allyriadau nwyon tŷ gwydr	Cyfanswm yr allyriadau sy'n cyfateb â CO ₂ . ⁹	Llai na 290 tonnell (gostyngiad o 50% ar linell sylfaen 2019-20)	333 tonnell ¹⁰	318 tonnell ¹¹
18	Y gyfradd lwyddiant ar gyfer hyfforddeion	Cyfran yr hyfforddeion sy'n llwyddo am y tro cyntaf yn eu harholiadau lefel Proffesiynol ac Uwch gyda Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr.	O leiaf 90%	85%	89%

● Cyrhaeddodd ein targed ● Angen gwelliant ● Angen gwelliant sylweddol

9 Heb gynnwys amcangyfrifon allyriadau cadwyn gyflenwi yr adroddir arnynt ar wahân yn ein Hadroddiad Cynaliadwyedd blynyddol.

10 Ym mis Mai 2026, gwnaeth Llywodraeth Cymru newidiadau sylweddol i'w chanllawiau adrodd, felly mae allyriadau 2024-25 wedi'u hail-ddatgan gan ddefnyddio'r methodolegau diweddaraf.

11 Heb gyrraedd y targed oherwydd lefelau uwch o bresenoldeb staff yn ein swyddfeydd a safleoedd y cyrff archwiliedig yn 2025-26, drwy symud i'r model gweithio hybrid gorau posibl ar ôl y pandemig gyda chymysgedd priodol o weithio wyneb yn wyneb ac ar-lein.

Dadansoddi perfformiad

- 25 Mae'r adran hon yn nodi golwg fanylach ar berfformiad Archwilio Cymru yn 2025-26. Mae'n darparu:
- Sylwadau ynghylch cyflawni ein rhaglenni gwaith archwilio.
 - Manylion am y cynnydd a wnaed yn y meysydd pwyslais a nodir yn ein Cynllun Blynyddol, ynghyd â rhai enghreifftiau astudiaethau achos o brosiectau a gafodd effaith arbennig.
 - Crynodeb o'n defnydd o adnoddau yn ystod y cyfnod adrodd, sy'n gweithredu fel ein Hadroddiad Cynaliadwyedd.

Sylwadau ynghylch cyflawni ein rhaglenni gwaith archwilio

- 26 Ein busnes craidd yw cynnal rhaglen eang o waith archwilio i gyflawni pwerau a dyletswyddau statudol yr Archwilydd Cyffredinol. Drwy gydol 2025-26, gwnaethom ymgymryd â gwaith archwilio lleol a chenedlaethol ar draws amrywiaeth eang o gyrff cyhoeddus.

Elfennau allweddol o'n gwaith archwilio



Rhoi barn ynghylch a yw cyfrifon y sector cyhoeddus wedi'u paratoi'n briodol a rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa ariannol



Ystyried a yw arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cymeradwy



Archwilio pa mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y mae cyrff cyhoeddus wedi defnyddio eu hadnoddau (gwerth am arian)



Dod i gasgliadau ynghylch a yw cyrff cyhoeddus wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth arfer eu swyddogaethau



Ystyried a yw busnes cyhoeddus yn cael ei gynnal mewn ffordd sy'n bodloni disgwyliadau a safonau penodol



Cynnal archwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy

Gwaith archwilio lleol

27 Rydym yn ymgymryd â gwaith archwilio lleol yn y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys archwiliadau o gyfrifon a gwaith archwilio perfformiad lleol yn bennaf. Darperir rhestr gynhwysfawr o'r gyrff cyhoeddus rydym yn eu harchwilio a'r math o waith archwilio lleol a wneir yn y gyrff hynny yn ein [Cynllun Archwilio ar gyfer 2026-27](#).

Archwilio cyfrifon

28 Mae maes mwyaf ein gwaith yn cynnwys archwilio cyfrifon dros 800 o gyrff cyhoeddus ledled Cymru. Mae'r gwaith hwn yn rhoi asesiad annibynnol, parhaus ac arbenigol i'r Senedd, gyrff archwiliedig a'r cyhoedd ehangach o reolaeth ariannol a chydnerthedd ar draws y sector cyhoeddus.

29 At ei gilydd, yn 2025-26, cyflwynwyd 94% o'n barn archwilio ar brif gyfrifon erbyn y dyddiad cau statudol neu'r dyddiad y cytunwyd arno (Dangosydd Perfformiad Allweddol 1). Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 5% ar ein perfformiad yn 2024-25 ac yn adlewyrchu cyd-destun cyflawni mwy heriol. Symudwyd y dyddiad cau ar gyfer archwiliad statudol ymlaen un mis o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cafodd nifer bach o farnau archwilio eu gohirio oherwydd cyflwyno cyfrifon drafft a phapurau gwaith ategol yn hwyr ac o ansawdd gwael mewn nifer cyfyngedig o gyrff archwiliedig.

30 Gydag un eithriad, cwblhawyd ein gwaith cyfrifon yng nghyrrff y GIG ym mis Mehefin 2025 yn unol â'n cynllun cyflawni. Cwblhawyd pob archwiliad o gyfrifon cyrrff llywodraeth ganolog ar gyfer 2024-25 yn unol â'n cynlluniau cyflawni. Ym mis Rhagfyr 2025, [cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn gymwys ar gyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25](#). Rhoddodd amod ar ei farn wir a theg ar ased benthyciadau myfyrwyr Llywodraeth Cymru gan nad oedd yn gallu pennu a oedd yr amcangyfrif gwerth teg ar 31 Mawrth 2025 yn rhesymol.

31 Mewn llywodraeth leol, roedd cyflawni archwiliadau o gyfrifon erbyn y dyddiad cau o 31 Hydref 2025 yn parhau i fod yn her. Roedd problemau ansawdd gyda rhai cyfrifon drafft llywodraeth leol 2024-25, ynghyd â dirywiad yn ansawdd y papurau gwaith ac oedi yn ymatebion cyrrff llywodraeth leol i ymholiadau archwilio, yn golygu nad oedd yn bosibl cwblhau pob archwiliad erbyn y dyddiad cau.

32 Gwnaethom barhau i weithio'n agos gyda chyrrff unigol a'r sector ehangach i sbarduno gwelliannau mewn darpariaeth yn y dyfodol, fel y nodir yn fanylach **yn y Sylwebaeth ar gyfer Blaenoriaeth 1**. Ym mis Rhagfyr 2025, gwnaethom gynnal dau ddigwyddiad dysgu ar y cyd a ddaeth â chynrychiolwyr o bob cwr o'r sector llywodraeth leol ynghyd i [Archwilio'r heriau a'r cyfleoedd wrth gryfhau adrodd ariannol](#).

- 33 Fodd bynnag, mae gallu'r sector i gynhyrchu cyfrifon 2025-26 o ansawdd uchel ac amserol yn parhau i fod yn bryder sylweddol. Ar 31 Mawrth 2026, roedd un corff o hyd heb gwblhau cyfrifon 2022-23, dau ar gyfer 2023-24 a naw ar gyfer 2024-25. Ym mis Mawrth 2026, ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol at bob corff llywodraeth leol yn rhybuddio bod oedi cynyddol wrth baratoi ac archwilio cyfrifon statudol yn peri risg wirioneddol i dryloywder ariannol a llywodraethu da ar draws y sector. Mae'r llythyrau'n nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen ar draws y sector i adfer adrodd ariannol amserol ac o ansawdd uchel.

Archwilio perfformiad lleol

- 34 Yn ystod 2025-26, gwnaethom barhau i lunio a chyflawni gwaith archwilio perfformiad lleol i fynd i'r afael â'r heriau sy'n esblygu y mae ein cyrff archwiliedig yn eu hwynebu, a lle bo'n berthnasol ac yn ymarferol er mwyn helpu i gyflawni dyletswyddau archwilio datblygu cynaliadwy'r Archwilydd Cyffredinol.¹²
- 35 Rydym yn cyhoeddi'r rhan fwyaf o adroddiadau archwilio lleol ar ein gwefan ar ôl iddynt fod drwy brosesau llywodraethu perthnasol mewn cyrff archwiliedig.
- 36 Eleni, roedd ein rhaglen yn cynnwys:

Llywodraeth leol

- Ein hasesiadau sicrwydd a risg blynyddol.
- Cwblhau gwaith ym mhob un o'r 22 cyngor ar drefniadau ar gyfer comisiynu gwasanaethau, gan amlinellu ffactorau sy'n effeithio ar allu'r sector i ddarparu gwerth am arian.
- Aseidiadau ar draws y sector yn canolbwyntio ar bwysau ar y gweithlu a sut mae cynghorau'n rheoli problemau recriwtio a chadw staff.
- Adolygiadau lleol pwrpasol ar ystod eang o bynciau eraill, a oedd yn cynnwys, er enghraifft, adrodd ar atal twyll, rheoli risg, a gwasanaethau cynllunio a datblygu gwaith ar addasiadau tai a chydnerthedd seiber mewn sawl cyngor.

12 O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gan gynnwys archwiliadau sy'n edrych ar gymhwyso egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod amcanion llesiant neu wrth gymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny. Rydym wedi ceisio integreiddio'r archwiliadau hyn o fewn y rhaglen waith bresennol cyn belled ag y bo modd.

GIG

- Ein gwaith asesu strwythuredig blynyddol.
- Cwblhau ein gwaith ar drefniadau arbed costau a chefnogi gwelliant drwy restr wirio arfer da ar gyfer aelodau'r bwrdd.
- Adroddiadau ar ôl-groniadau rhestrau aros ym mhob bwrdd iechyd.
- Rhaglen waith barhaus ar ofal brys a gofal mewn argyfwng sydd wedi cynnwys edrych ar ffactorau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n effeithio ar ryddhau cleifion yn amserol a sut mae'r galw'n cael ei reoli.
- Datblygu gwaith ar draws y sector ar drawsnewid digidol, gwasanaethau canser, a rheoli ystadau.
- Adolygiadau lleol pwrpasol a oedd yn cynnwys, er enghraifft, adroddiadau ar wasanaethau gofal llygaid mewn tri bwrdd iechyd.

- 37 Mae **astudiaeth achos 1** (llywodraeth leol) ac **astudiaeth achos 4** (GIG) yn rhoi rhai sylwadau pellach ar waith yn y sectorau hyn.
- 38 Ym mis Medi 2025, gwnaethom gyhoeddi [Adroddiad ar fethiannau llywodraethu ac ymgysylltiad aelodau yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam](#). Canfu'r adolygiad dilynol hwn, a archwiliodd werthoedd ac ymddygiadau ar lefel uwch ar draws y Cyngor, nad yw'r Cyngor wedi mynd i'r afael yn llawn â'n hargymhellion blaenorol eto.
- 39 At ei gilydd, cynyddodd cyfanswm nifer yr adroddiadau archwilio perfformiad lleol ychydig o 156 yn 2024-25 i 158 yn 2025-26. Mae nifer yr adroddiadau'n adlewyrchu i raddau helaeth sut mae rhaglenni lleol yn cael eu llunio yn ystod y cyfnod adrodd ac ni fyddem yn disgwyl i'r ffigur fod yr un fath o'r naill flwyddyn i'r llall.
- 40 Darperir rhagor o wybodaeth am y cynnydd a wnaed tuag at fynd i'r afael ag ôl-groniad yn ein gwaith archwilio lleol a sicrhau bod ein rhaglenni gwaith mawr yn dychwelyd i'r amserlenni a welwyd cyn y pandemig yn y **Sylwebaeth ar gyfer Blaenoriaeth 2**.

Astudiaethau cenedlaethol

- 41 Rydym yn cynnal rhaglen barhaus o astudiaethau cenedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys astudiaethau eraill sy'n canolbwyntio ar y GIG a llywodraeth leol yn ogystal â'n rhaglenni archwilio lleol yn y sectorau hynny. Rydym hefyd yn paratoi allbynnau ychwanegol sy'n tynnu sylw at themâu cyffredin o'n gwaith archwilio lleol.
- 42 Mae'r tabl isod yn rhestru 16 o allbynnau adroddiadau cenedlaethol proffil uwch o wahanol fathau a gyflawnwyd gennym yn 2025-26. Mae ein **Ciplun o'r Flwyddyn** ar ddechrau'r Adroddiad hwn yn cynnwys nifer o'r allbynnau hyn.
- 43 Mae graddfa gwahanol ddarnau o waith yn amrywio. Mae'r ffigur hwn o 16 allbwn yr un fath â'r hyn a gyflawnwyd yn 2024-25. At ei gilydd, rydym wedi parhau i weld yr allbwn hwn yn denu sylw cryf yn y cyfryngau a diddordeb ehangach gan randdeiliaid perthnasol.
- 44 Gwnaeth gyfran y cynhyrchion archwilio perfformiad allweddol (gan gynnwys astudiaethau cenedlaethol) a gyflawnwyd yn unol â'r amserlen gynlluniedig yn 2025-26 wella ychydig o 81% i 83% (Dangosydd Perfformiad Allweddol 2) ond roedd yn dal i fod islaw ein targed o 90%. Yn 2025-26, un ffactor a effeithiodd ar ein gallu i gyflawni'r targed hwn oedd ail-flaenoriaethu rhai adnoddau a neilltuwyd i waith cenedlaethol i adfer ein gwaith archwilio lleol.
- 45 Mae'r allbynnau hyn yn eistedd ochr yn ochr ag adroddiadau eraill ar gyfer cyrff llywodraeth ganolog sy'n rhan o'r pecyn ehangach o waith cenedlaethol a ddisgrifir yn ein Cynllun Blynyddol ond nad ydynt wedi cael eu cyhoeddi i'r wasg yn unigol. Yn benodol, mae hyn yn cynnwys adroddiadau/allbynnau ar osod amcanion llesiant yn [Medr, Cymwysterau Cymru](#), [Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol](#) a [Chyngor Celfyddydau Cymru](#). Mae hefyd yn cynnwys adroddiadau ar gynaliadwyedd ariannol yn [Llyfrgell Genedlaethol Cymru](#), [Cyngor Celfyddydau Cymru](#), [Chwaraeon Cymru](#) ac [Amgueddfa Cymru](#).
- 46 Rhestrir astudiaethau yn y tabl yn fras yn nhrefn eu dyddiad cwblhau, gan ddangos aliniad cryf â themâu penodol. Yn ymarferol, mae ein holl waith fel arfer yn cynnwys sylw sy'n berthnasol i 'wasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu rheoli'n dda'.

- 47 Mae ein Cynllun blynyddol ar gyfer 2026-27 yn rhestru'r holl astudiaethau gweithredol a chynlluniedig ar gyfer 2026-27 ar 31 Mawrth 2026. Mae rhagor o wybodaeth am ein rhaglen waith ar gael ar ein gwefan.
- 48 Rydym yn adolygu ein rhaglen flaengar yn rheolaidd, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy'n esblygu, ein hadnoddau ein hunain a gallu cyrff archwiliedig i ymgysylltu â ni. Rydym yn cynnal digon o hyblygrwydd fel y gallwn ymateb yn effeithiol i faterion sy'n dod i'r amlwg sy'n peri pryder i'r cyhoedd neu senedd.
- 49 Yn 2026-27, bydd hyn yn cynnwys ystyried:
- barn yr Archwilydd Cyffredinol newydd;
 - datblygiadau ym mholisi Llywodraeth Cymru;
 - meysydd o ddiddordeb posibl i bwyllgorau'r Senedd yn dilyn etholiadau'r Senedd.

Allbynnau adroddiadau cenedlaethol a gwblhawyd yn 2025-26



	Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb	Ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur	Cydnherthedd y gwasanaeth a mynediad	Gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu rheoli'n dda
<u>Dim amser i'w golli: Gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol</u>	✓	✓	✓	✓
<u>Y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru</u>	✓	✓		✓
<u>Cynllunio arbedion costau yn y GIG</u>				✓
<u>Llety Dros Dro, argyfwng hirdymor?</u>	✓		✓	✓
<u>Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Canolfan Forol Porthcawl a fethodd</u>				✓
<u>Cyllid y GIG a diweddariad yr offeryn data</u>				✓



Mynd i'r afael ag
anhydraddoldeb

Ymateb i'r
argyfwng
hinsawdd
a natur

Cydnherthedd
y
gwasanaeth
a mynediad

Gwasanaethau
cyhoeddus
sy'n cael eu
rheoli'n dda

Diogelu Natur ar gyfer
Cenedlaethau'r Dyfodol?

✓

✓

Diweddariad ar y camau a
gymerwyd i ganfod twyll a
gwallau mewn fferylliaeth
gymunedol

✓

Gwirio'r cleifion. Canlyniadau
o ymarfer paru data peilot ar
restrau cleifion meddygon teulu

✓

Y Blociau Adeiladu? Cynllunio
Cyfalaf mewn Cyngorau yng
Nghymru

✓

✓

Cyllid preifat – effaith gyhoeddus:
Archwilio'r broses o wneud
penderfyniadau ar gyfer canolfan
ganser newydd Felindre.

✓

Diweddariad ar y camau a
gymerwyd i gyrraedd targed tai
fforddiadwy Llywodraeth Cymru

✓

✓

✓

Crynodeb o brif ganfyddiadau
ein hadolygiad o drefniadau
comisiynu llywodraeth leol yng
Nghymru

✓

Rheoli'r Gronfa Integreiddio
Rhanbarthol: Rhoi argymhellion
archwilio blaenorol ar waith

✓

✓

Anghenion Dysgu Ychwanegol:
Ydy cyrff cyhoeddus yn gwybod a
yw'r system yn gweithio?

✓

✓

✓

Cefnogi gwaith craffu effeithiol

Cefnogi gwaith y Senedd

- 50 Yn ystod 2025-26, parhaodd ein gwaith i chwarae rhan allweddol wrth gefnogi gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd wrth iddo ystyried sut mae adnoddau yn cael eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus.
- 51 Cefnogodd yr allbynnau o'n gwaith 16 o gyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor drwy gydol y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys y Pwyllgor yn ystyried allbynnau adroddiad amrywiol a gwblhawyd yn ystod y cyfnod adrodd (o'r rhestr uchod).
- 52 Gwnaethom hefyd barhau i ymgysylltu â thimau clericio ac ymchwil i bwyllgorau eraill y Senedd i drafod ein gwaith lle'r oedd hyn o ddiddordeb i'r ddwy ochr:
- Gwnaethom roi tystiolaeth ar lafar i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ym mis Mehefin 2025 fel rhan o'i ymchwiliad i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yna tystiolaeth ysgrifenedig ym mis Tachwedd 2025 (gweler hefyd **Astudiaeth achos 2**).
 - Gwnaethom gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig dros haf 2025 i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith i gefnogi ei waith craffu ar Fil Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethu a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) Llywodraeth Cymru.
 - Gwnaethom roi tystiolaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid ym mis Tachwedd 2025 i gefnogi ei waith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27.
- 53 Ym mis Mawrth 2026, ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol at bwyllgorau'r Senedd i gofnodi ei safbwynt diwedd tymor ar rai o'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Cefnogi gwaith y pwyllgorau archwilio a chraffu ar gyrff cyhoeddus

- 54 Drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, buom yn mynychu cyfarfodydd pwyllgorau archwilio a chraffu ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn rheolaidd er mwyn darparu sesiynau briffio ac adrodd ar ein gwaith.
- 55 Gwnaethom hefyd barhau â'n briffiau rheolaidd ar faterion yn ymwneud ag archwilio i Gadeiryddion Pwyllgorau Archwilio'r GIG a grwpiau Cyfarwyddwyr Cyllid, Grŵp Cymdeithas Trysoryddion Cymru Llywodraeth leol a'i Is-grŵp Prif Gyfrifwyr, a Grŵp Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio'r Llywodraeth Ganolog.
- 56 Darperir rhagor o fanylion am ein gwaith yn y maes hwn yn ein **Sylwadau ar gyflawni ein rhaglenni gwaith archwilio** ac yn **Astudiaeth Achos 4**.

Cefnogi'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr etholedig

- 57 Rydym yn cael gohebiaeth yn rheolaidd gan y cyhoedd, eu cynrychiolwyr etholedig ac eraill sy'n codi pryderon posibl ynghylch defnyddio arian cyhoeddus. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn Berson Rhagnodedig ar gyfer derbyn datgeliadau chwythu'r chwiban ynghylch cynnal busnes cyhoeddus yn briodol; gwerth am arian, twyll a llygredd mewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru.
- 58 Yn ystod 2025-26, cafwyd 174 o eitemau o ohebiaeth a sicrhawyd ein bod yn ymateb i'r pryderon hynny mewn modd teg, cymesur a phroffesiynol. Yn ogystal, cysylltodd 31 o unigolion â ni rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026 gan wneud datgeliad chwythu'r chwiban, i'r graddau y gallem gadarnhau hynny. Gyda'i gilydd, mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 51% mewn achosion newydd o'i gymharu â 2024-25.
- 59 Mae Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Ddatgeliadau Gwybodaeth ar gyfer 2025-26 wedi'i gynnwys fel Atodiad i'r Adroddiad hwn.¹³
- 60 O'r cyfanswm o ohebiaeth ac achosion o ddatgeliadau chwythu'r chwiban, canfuwyd nad oedd 32 yn berthnasol i gylch gwaith deddfwriaethol yr Archwilydd Cyffredinol neu nad oeddent yn gyfystyr â materion sylweddol y byddai angen i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd arnynt neu gymryd camau eraill. Cofnodwyd y 173 achos sy'n weddill i'w hystyried naill ai fel rhan o waith archwilio parhaus neu gynlluniedig, neu fel rhan o waith archwilio cynllunio yn y dyfodol.

Gwaith arferion da a rhannu dysg archwilio

- 61 Mae allbynnau Arferion Da a gynhyrchwyd dros y 12 mis diwethaf wedi cynnwys:
- a Nifer o ddigwyddiadau dysgu a rennir yn trafod pynciau fel:
 - i Dim amser i'w golli: Blaenoriaethu atal
 - ii Gweithio gyda'n gilydd i ddarparu cyfrifon llywodraeth leol amserol ac o ansawdd
 - b Cyfres o flogiau yn rhannu enghreifftiau o wahanol fentrau ledled Cymru.

13 Fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Personau Rhagnodedig (Adroddiadau ar Ddatgelu Gwybodaeth) 2017

- 62 Ym mis Mawrth 2026, lansiyd adran newydd o'n gwefan o'r enw Mewnwelediadau, lle rydym yn rhannu cynnwys ymarferol a gynlluniwyd er mwyn helpu'r darllenydd i gael dealltwriaeth ddyfnach o'n gwaith archwilio a'r materion allweddol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Mae'r cynnwys yn cynnwys:
- a Nodweddion a blogiau yn egluro canfyddiadau allweddol mewn iaith glir;
 - b Pecynnau cymorth a chanllawiau sy'n cefnogi gwneud penderfyniadau gwell;
 - c Podlediadau ac areithiau yn cynnig barn arbenigol;
 - ch Delweddu data sy'n gwneud gwybodaeth gymhleth yn hawdd i'w harchwilio.
- 63 Gwnaethom hefyd barhau i ddatblygu ein sianel podlediad a gafodd ei hail-lansio ym mis Medi 2025. Ym mis Rhagfyr 2025, drwy gyfres o bodlediadau arbennig, cynigiodd Adrian Crompton ei bersbectif fel yr Archwilydd Cyffredinol sy'n ymadael ar yr heriau a'r cyfleoedd parhaus i wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Rydym wedi cyhoeddi penodau ers hynny ar Dwyll a Deallusrwydd Artiffisial (AI) gyda chyfres dau yn cael ei chyhoeddi yn ystod Haf 2026.
- 64 Gellir cael gafael ar yr holl ddeunydd a rannwyd yn 2025-26 drwy'r adrannau Arfer Gorau a Blogiau ar ein gwefan. At ei gilydd, roedd 100% o'r rhanddeiliaid a ymatebodd i'n holiadur adborth ar ôl mynychu digwyddiadau yn 2025-26 wedi graddio ein hallbynnau arfer da fel rhai defnyddiol neu ddefnyddiol iawn (Dangosydd Perfformiad Allweddol 8).
- 65 Yn ogystal, gwnaethom ragori ar ein targed o 50 ar gyfer nifer yr achosion lle gwnaethom gyflwyno dysgu archwilio i gynulleidfaoedd allanol y tu hwnt i'n hymgysylltiad arferol â chyrrff a archwiliwyd (Dangosydd Perfformiad Allweddol 11). Eleni roedd 58 o achosion o'r fath. Ymhlith pethau eraill, roedd y rhain yn cynnwys enghreifftiau o'n mewnbwn i waith pwyllgorau'r Senedd, y tu hwnt i'n hymgysylltiad rheolaidd â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.
- 66 Mae ein cyfrif hefyd yn cynnwys cyflwyniadau mewn digwyddiadau cynhadledd ar gyfer cynulleidfaoedd Cymru, y DU ehangach a rhyngwladol ar wahanol bynciau, gan gynnwys o'n gwaith o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (**gweler Astudiaeth achos 2**). Ym mis Rhagfyr 2025, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol araith allweddol yng nghynhadledd Sector Gyhoeddus yr ICAEW. Canolbwyntiodd y gynhadledd ar reoli argyfyngau, llywodraethu a chydnerthedd yn y sector cyhoeddus.

Ansawdd archwilio

- 67 Rydym yn cyflawni ein gwaith yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) ar gyfer gwaith archwilio cyfrifon, Safonau proffesiynol INTOSAI ar gyfer gwaith archwilio perfformiad, a safonau moesegol ac ansawdd y Cyngor Adrodd Ariannol ar gyfer yr holl waith.
- 68 Cwblhawyd ein rhaglen monitro ansawdd ddiweddaraf ym mis Ebrill 2026. Cyrhaeddodd 7 allan o'r 8 archwiliad a samplwyd ein targed o gael eu cyflawni yn unol â'r ddau gategori ansawdd archwilio uchaf (Dangosydd Perfformiad Allweddol 3). Cyrhaeddodd 5 o'r 8 archwiliad a samplwyd y sgôr uchaf un. Yn gyffredinol, dyma'r set gryfaf o sgoriau rydym wedi'u cael ers gweithio gydag Adran Sicrhau Ansawdd yr ICAEW dros y 10 mlynedd diwethaf.
- 69 Mae ein Hadroddiad Ansawdd Archwilio diweddaraf yn rhoi mwy o fanylion am y cynnydd a wnaed yn ein trefniadau ansawdd archwilio a chanlyniadau gweithgaredd monitro.

Adborth gan rhanddeiliaid a'r cyhoedd

- 70 Gwnaethom gomisiynu contractwr allanol, Savanta, i gynnal arolwg annibynnol o'n rhanddeiliaid allweddol ddechrau 2026. Drwy'r arolwg, gwnaethom archwilio lefelau ymgysylltu a chasglu barn ar werth ac effaith ein gwaith archwilio.
- 71 Roedd yr ymarfer yn cwmpasu rolau allweddol gan gynnwys Prif Weithredwyr, Arweinwyr Cynghorau, Cadeiryddion Byrddau, Cyfarwyddwyr Cyllid, Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a'r prif gysylltiadau archwilio perfformiad ym mhob prif gorff archwiliedig. Anfonwyd y gwahoddiad i'r arolwg at holl Aelodau'r Senedd hefyd.
- 72 Cwblhaodd 91 o unigolion yr arolwg ar-lein, gyda 21 arall yn cymryd rhan mewn cyfweliadau manylach. At ei gilydd, cawsom ymatebion gan 65 o gyrff archwiliedig gwahanol (87% o'r sefydliadau a wahoddiwyd) gyda chynrychiolaeth dda ar draws pob sector.
- 73 Fel y nodwyd yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, cynhaliwyd ymarfer arolwg rhanddeiliaid tebyg yn 2025. Fodd bynnag, oherwydd y nifer llai o ymatebwyr i'r arolwg hwynnw (a'r lwfans gwallau uwch o ganlyniad yn y canlyniadau hynny), rhaid bod yn ofalus wrth wneud cymariaethau.

74 Dyma'r prif negeseuon o'r arolwg llawer mwy cynhwysfawr yn 2026:

Mae **90%** o randdeiliaid yn ystyried bod yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfathrebwr annibynnol ac awdurdodol ar lywodraethu a stiwardiaeth arian ac asedau cyhoeddus - cyflawnwyd ein targed o **90%** ar gyfer Dangosydd Perfformiad Allweddol 4 gyda chynnydd o 14 pwynt canran o ganlyniadau arolwg 2025.

Cytunodd **78%**, drwy waith Archwilio Cymru, eu bod wedi cael mewnwelediad defnyddiol na fyddent wedi'i gael fel arall - yn agos at gyflawni ein targed o **80%** ar gyfer Dangosydd Perfformiad Allweddol 5 a'r un canlyniad ag yn 2025.



Mae **bodddhad** rhanddeiliaid â gwaith archwilio cyfrifon Archwilio Cymru yn uchel iawn (81%).

Mae **70%** yn credu bod gwaith Archwilio Cymru wedi arwain at welliannau yn y ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus - mae'n parhau i fod islaw ein targed o **80%** ar gyfer Dangosydd Perfformiad Allweddol 6, ond cynnydd o 8 pwynt canran ar 2025.

Mae **bodddhad** rhanddeiliaid â gwaith archwilio perfformiad Archwilio Cymru hefyd yn **uchel** (70%) ond yn is nag ar gyfer gwaith cyfrifon. Roedd rhai o'r safbwyntiau llai cadarnhaol ar waith perfformiad yn cyfeirio at "wybod eisoes" y casgliadau a dynnwyd a/neu'r argymhellion a wnaed.



Dywedodd y rhan fwyaf o randdeiliaid fod ganddynt **berthynas waith adeiladol** â'u prif gyswllt archwilio (93%) a bod staff Archwilio Cymru yn dangos arbenigedd proffesiynol cryf (90%).

Dywedodd **92%** o randdeiliaid fod adroddiadau Archwilio Cymru yn glir, yn hygyrch ac yn hawdd eu deall.



Mae amseroldeb yn **faes allweddol i'w wella** a argymhellir gan randdeiliaid, ochr yn ochr â gwella rhannu arfer gorau a **chryfhau cydweithio** â chyrrff archwiliedig i wella effeithlonrwydd a pherthnasedd canlyniadau.

Mae Archwilio Cymru yn cael ei ystyried yn fwyaf cyffredin fel sefydliad **dibynadwy, hawdd mynd ato, gwybodus** a **pharchus**, ond braidd yn llai addasadwy ac arloesol.



Mae gwerth am arian yn parhau i fod yn fetrig mwy **polareiddiol**, gyda phryderon yn cael eu codi yn bennaf yn ymwneud â chynnydd mewn ffioedd archwilio.


Mae meysydd pwnc y byddai rhanddeiliaid yn hoffi'n arbennig i Archwilio Cymru ystyried eu harchwilio ac adrodd arnynt dros y 1-3 blynedd nesaf yn cynnwys:

- i cynaliadwyedd ariannol hirdymor;
- ii dylunio systemau, llywodraethu a chydweithio ar draws gwasanaethau cyhoeddus;
- iii trawsnewid digidol, AI a pharodrwydd y gweithlu ar gyfer y dyfodol.




75 Darperir dadansoddiad o ymatebion gan rhanddeiliaid i lawer o'r datganiadau allweddol yn yr arolwg yn y siartiau isod.


Dangosyddion Perfformiad Allweddol




Bodlonrwydd rhanddeiliaid gyda gwaith archwilio



Metrigau allweddol eraill arolwg rhanddeiliaid



Canfyddiadau rhanddeiliaid o Archwilio Cymru¹⁴




14 Cysylltiad ansoddeiriau ar raddfa 5 pwynt

- 76 Ym mis Mawrth 2026, cymerodd Archwilio Cymru ran hefyd yn Arolwg Omnibus Cymru a weithredwyd gan Beaufort Research. Defnyddiwyd cyfres fer o gwestiynau mewn cyfweiliadau i archwilio lefelau ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a chanfyddiadau o Archwilio Cymru ymhlith sampl poblogaeth gytbwys yn ddemograffig o 1,000 o unigolion. Cynhaliwyd arolygon tebyg yn 2023 a 2025 sy'n darparu pwyntiau cyfeirio defnyddiol.
- 77 Ymddengys bod ymwybyddiaeth o Archwilio Cymru ymhlith y cyhoedd yn cynyddu. Mae ymwybyddiaeth ddigymell yn parhau ar lefel gymharol isel ond cynyddodd o 6% i 11% rhwng 2025 a 2026 Cynyddodd ymwybyddiaeth ysgogedig rhwng 2023 a 2026¹⁵ o 39% i 47%.¹⁶
- 78 Mae ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd yn cael ei ysgogi'n bennaf gan newyddion ar y teledu, drwy siarad â theulu a ffrindiau, a thrwy ddarllen erthyglau newyddion ar-lein neu ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae ymwybyddiaeth hefyd yn ansefydlog ar draws y boblogaeth, gyda lefelau uwch ymhlith pobl o alwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol uwch a chanolradd, oedolion iau a'r rhai sy'n byw yn Ne Cymru.
- 79 Mae gwybodaeth fanylach am yr hyn a wnawn yn parhau i fod yn gymharol isel, sy'n dangos bod lle i gryfhau dealltwriaeth y cyhoedd. Fodd bynnag, mae canfyddiadau'n gadarnhaol iawn ymhlith y rhai sy'n fwy cyfarwydd â'n gwaith, ac ymddengys eu bod wedi cryfhau ers 2025.
- 80 Y tri phrif faes pwnc y byddai aelodau'r cyhoedd, dros y 1-3 blynedd nesaf, yn hoffi'n arbennig i Archwilio Cymru ystyried eu harchwilio ac adrodd arnynt oedd:
- Cyllid ac effeithlonrwydd GIG Cymru;
 - Effeithlonrwydd gwariant cyhoeddus, gorwariant a gwastraff;
 - Cymhwysedd, tryloywder ac effeithlonrwydd llywodraeth leol.
- 81 Darperir dadansoddiad o'r ymatebion i'r cwestiynau allweddol yn yr arolwg Omnibus yn y siartiau isod.


15 Y rhai a atebodd, "Archwilio Cymru", "Archwilydd Cyffredinol Cymru" neu "Swyddfa Archwilio Cymru" mewn ymateb i "A allwch chi enwi unrhyw sefydliadau sy'n adolygu gwariant cyhoeddus yng Nghymru?" Dim ond y Senedd/Senedd Cymru a sgoriodd yn uwch yn 2026 gyda 18% o ymwybyddiaeth ddigymell.

16 Y rhai a atebodd, "Ydw" mewn ymateb i'r cwestiwn dilynol "Ydych chi wedi clywed am Archwilio Cymru (Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru)?"


Ysgogi ymwybyddiaeth y cyhoedd o Archwilio Cymru



Metrigau arolwg cyhoeddus allweddol



Canfyddiadau'r cyhoedd o Archwilio Cymru



Y cynnydd a wnaed yn ein meysydd ffocws ar gyfer gwella busnes

82 2025-26 oedd y bedwaredd flwyddyn o strategaeth bum mlynedd ar gyfer cyflawni ein gweledigaeth gyffredinol. Yn y strategaeth honno, gwnaethom nodi tri maes ffocws ar gyfer blaenoriaethu camau gweithredu:



Rhaglen
archwilio
strategol,
ddeinamig o
ansawdd uchel



Dull wedi'i
dargedu ac sy'n
cael effaith ar
gyfathrebu a
dylanwadu



Diwylliant
a model
gweithredu sy'n
ein galluogi
i ffynnu

- 83 Mae cyflawniadau nodedig yn ystod pedair blynedd gyntaf cyflawni'r strategaeth, gan gynnwys rhai o'r gweithgareddau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn, wedi'u nodi yn ein Cynllun Blynyddol diweddaraf.
- 84 Yn 2025-26, gwnaethom ymrwymo i gymryd camau strategol ar draws pum blaenoriaeth cynllunio busnes allweddol. Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi manylion am y cynnydd a wnaethom yn erbyn pob un o'r blaenoriaethau hyn yn ystod y cyfnod adrodd.
- 85 Er mwyn symleiddio ac osgoi dyblygu, lle mae manylion am gynnydd wedi'u cynnwys mewn man arall yn yr Adroddiad hwn, darperir cyfeiriadau at yr adran briodol.
- 86 Yn yr adrannau hyn, rydym hefyd yn darparu rhai enghreifftiau perthnasol o astudiaethau achos o'r gwaith a gyflawnwyd gennym yn ystod 2025-26 a'r effaith y mae'r gwaith hwnnw wedi'i chael.



Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel

Blaenoriaethau

Dod â'r amserlen ar gyfer cyflawni gwaith archwilio cyfrifon 2024-25 ymlaen ymhellach i 30 Mehefin ar gyfer y GIG a 31 Hydref ar gyfer llywodraeth leol (y dyddiadau cau cyfatebol ar gyfer cyfrifon 2023-24 oedd 15 Gorffennaf a 30 Tachwedd).

Cynnydd a wnaed

Statws: Ar y gweill, gan er bod y gwaith o gyflawni archwiliadau wedi bod yn gryf ar draws y GIG a llywodraeth ganolog, mae cynnydd yn y sector llywodraeth leol yn parhau i gael ei gyfyngu gan heriau parhaus o ran amseroldeb ac ansawdd cyfrifon drafft.

Sylwadau

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn yn y **Sylwadau ar gyflawni ein rhaglenni gwaith archwilio**, rydym wedi mabwysiadu dull eang a chydweithredol yn ystod 2025–26 i gefnogi gwelliant ar draws y sector, gan gynnwys ymgysylltu wedi'i dargedu â rhanddeiliaid allweddol a gweithgarwch arfer da ar draws y sector.

Er gwaethaf yr ymdrechion hyn, mae oedi wrth adrodd ariannol llywodraeth leol yn parhau i fod yn bryder sylweddol, gyda goblygiadau i dryloywder a llywodraethu da.

Mae'r mater hwn wedi cael ei amlygu drwy ohebiaeth ffurfiol gan yr Archwilydd Cyffredinol a bydd yn parhau i fod yn ffocws allweddol i'n gwaith, fel yr adlewyrchir yn ein [Cynllun Blynyddol 2026–27](#).

Blaenoriaethau

Dod â'r amserlen ar gyfer cwblhau gwaith perfformiad lleol ymlaen ymhellach, fel bod cyfran fwy yn cael ei chwblhau o fewn tri mis i ddiwedd y flwyddyn y mae'r cynllun archwilio'n ymwneud â hi.

Cynnydd a wnaed

Statws: Ar y gweill, gyda gwelliant pellach wedi'i gynllunio ar gyfer 2026-27

Sylwadau

Gwnaed cynnydd sylweddol yn 2025-26 tuag at ddileu gweddill yr ôl-groniad ar ôl y pandemig o ran cyflawni archwiliadau perfformiad lleol.

Yn y sector llywodraeth leol, mae'r holl waith sydd heb ei wneud bellach wedi'i glirio, ac mae archwiliadau lleol 2025-26 ar amser i gael eu cyflawni i raddau helaeth erbyn 30 Mehefin 2026.

Yn y GIG, mae ôl-groniad y flwyddyn flaenorol wedi'i glirio'n sylweddol, er bod rhywfaint o waith o gynllun 2025-26 wedi'i gario ymlaen i 2026-27 gyda tharged i'w gwblhau erbyn mis Medi 2026.

I gyflymu'r gwaith hwn, ochr yn ochr â chapasiti archwilwyr llanw ychwanegol, sicrhawyd rhywfaint o adnoddau ychwanegol gan dimau eraill ar draws y sefydliad i gefnogi'r gwaith o gyflawni archwiliadau perfformiad lleol.

Fel y nodwyd yn ein [Cynllun Blynyddol ar gyfer 2026-27](#), erbyn 2027 ein nod yw cwblhau'r holl waith lleol a gynlluniwyd yn gyson erbyn y dyddiad cau gorau posibl ar gyfer sicrhau adrodd amserol ac effeithiol (31 Mawrth i'r GIG a 30 Mehefin i lywodraeth leol).

Dros y cyfnod adrodd, gwnaethom hefyd ddatblygu gwaith prosiect i wella ansawdd a hygyrchedd gwybodaeth reoli ynghylch cyflawni ein prosiectau a'n rhaglenni archwilio lleol.

Blaenoriaethau

Mwy o ffocws ar werth am arian drwy ddadansoddiad ariannol a chanlyniadau cryfach yn ein gwaith archwilio perfformiad.

Cynnydd a wnaed**Statws: Cwblhawyd****Sylwadau**

Ym mis Gorffennaf 2025, gwnaethom lansio templed adrodd archwilio perfformiad newydd a deunyddiau ategol. Nod y templed yw cael ffeithiau a ffigurau allweddol mewn ffordd gliriach, gan gynnwys ynghylch gwariant a chanlyniadau. Darperir rhagor o wybodaeth am y prosiect hwn yn **Astudiaeth Achos 3**. Gwnaethom hefyd ddiweddarau ein canllawiau i archwilwyr ynghylch agweddau ar ein gwaith archwilio lleol i annog mwy o ffocws ar ganlyniadau.

Fel rhan o'n gwaith Y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI), gwnaethom ddatblygu offeryn data i'w gwneud hi'n haws asesu cynnydd cyrff wrth adolygu parau data twyll/gwall posibl a'r canlyniadau sy'n cael eu cyflawni. Defnyddiwyd yr offeryn data gennym i gefnogi ein hymgylltiad â chyrrff sy'n cymryd rhan a darparu briffiau ar gyfer pwyllgorau archwilio lleol. Bydd y gwaith hwn yn llywio ein hadroddiad cenedlaethol nesaf ar y Fenter Twyll Genedlaethol yn Hydref 2026 a'n syniadau ar gyfleoedd paru data yn y dyfodol.

Ym Mis Ionawr 2026, gwnaethom hefyd gyhoeddi canlyniadau'r gwaith paru data peilot ar gofrestriadau meddygon teulu'r GIG.

Erbyn diwedd 2025-26, roeddem wedi cwblhau gwaith archwilio lleol ar ofal brys a gofal mewn argyfwng i raddau helaeth, ac roeddem wedi cwblhau gwaith ar Restrau aros gofal wedi'u cynllunio y GIG.

Byddwn yn rhannu negeseuon crynodeb cenedlaethol ddechrau 2026-27, gan gynnwys dwyn ynghyd ddadansoddiad ynghylch cyfleoedd arbed ariannol posibl, sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol at y ffigur o £46 miliwn a adroddwyd gennym yn erbyn Dangosydd Perfformiad Allweddol 7 (Arbedion a nodwyd) ar gyfer y cyfnod 2023-2026.



Astudiaeth achos 1: Cefnogi cynaliadwyedd ariannol gwell ac adrodd ar draws llywodraeth leol

Dros gyfnod 2025-26, rhoddwyd pwyslais arbennig ar edrych yn fanwl ar bwysau ariannol mewn llywodraeth leol:

- Ym mis Gorffennaf 2025, cyhoeddwyd adroddiad ar Lety Dros Dro yn archwilio costau a galw cynyddol, a sut i wella gwerth am arian dulliau cynghorau.
- Ym mis Ionawr 2026 cyhoeddwyd adroddiad ar Gynllunio Cyfalaf mewn Cynghorau, gan nodi ffyrdd i gynghorau a Llywodraeth Cymru gynllunio gwariant cyfalaf yn well, a chynnwys rhestr wirio yn nodi agweddau allweddol ar gynllunio cyfalaf effeithiol.
- Ddechrau mis Ebrill 2026, cyhoeddwyd adroddiad gennym ar Gymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol: system dan straen, gan dynnu sylw at gynnydd sylweddol yng ngwariant y cyngor.
- Gwnaethom fwrw ymlaen â threfniadau ariannu llywodraeth leol a gwerth am arian gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal, a disgwylir cyhoeddi'r canfyddiadau yn Haf 2026.
- Gwnaethom wella mewnwelediad i'r sector drwy ein Hofferyn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol diweddaedig.

Nid yn unig y rhoddodd y corff hwn o waith sicrwydd ynghylch sut roedd cynghorau'n rheoli pwysau ariannol, ond tynnodd sylw hefyd at feysydd o arfer cryfach a da i gefnogi dysgu a gwella ar y cyd.



Astudiaeth achos 2: Dim amser i'w gollu – gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Ym mis Ebrill 2025, cyhoeddwyd adroddiad nodedig ar sut mae cyrff cyhoeddus yn gweithredu'r Ddeddf, deng mlynedd ar ôl iddi ddod yn gyfraith. Er gwaethaf enghreifftiau o effaith gadarnhaol, gwelsom nad yw'r Ddeddf eto'n sbarduno'r newid system-gyfan a fwriadwyd.

O ystyried y galw enfawr a'r pwysau ariannol y mae cyrff cyhoeddus yn eu hwynebu, pwysleisio fod cyflymu cynnydd o dan y Ddeddf yn dechrau drwy flaenoriaethu atal. Gwnaethom bedwar argymhelliad strategol i Lywodraeth Cymru, yn canolbwyntio ar greu'r amodau ar gyfer cynnydd.

Gwnaeth y dull a gymerwyd o ran ein gwaith o dan y Ddeddf helpu i gryfhau sylw ac effaith yr adroddiad. Cafodd ein sylwadau eu llywio gan tua 200 o archwiliadau ar wahân, a thrwyddynt gwnaethom gysylltu egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf a gwerth am arian. Rhoddodd hyn fwy o fewnwelediad i ni ynghylch a yw cyrff cyhoeddus yn gwneud y Ddeddf yn 'wir' ar draws eu gwahanol swyddogaethau.

Gwnaethom gydweithio'n agos â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wrth iddo gyhoeddi ei adroddiad ei hun ochr yn ochr â'n un ni. Ychydig cyn ei gyhoeddi, lansiodd Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd ymchwiliad ôl-ddeddfwriaethol i'r Ddeddf. Gwnaethom roi tystiolaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig i gynorthwyo'r ymchwiliad, ac roedd ein hadroddiad a'n tystiolaeth ddilynol yn amlwg yn adroddiad y Pwyllgor a gymeradwyodd ein hargymhellion.

Y tu hwnt i waith y Pwyllgor, mae ein hadroddiad wedi llywio sgyrsiau ehangach ynghylch y Ddeddf a'r hyn y gellir ei ddysgu; rydym yn parhau i gyfrannu at ystod amrywiol o rwydweithiau a digwyddiadau cysylltiedig, yng Nghymru ac ar draws y DU.



Dull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu

Blaenoriaeth

Cyflawni cynnydd yng nghyrhaeddiad ac ymwybyddiaeth o'n gwaith a'i effaith ar gymunedau yng Nghymru, drwy annog mwy o bobl i ddarllen, rhannu a gweithredu ar ein cynnwys.

Cynnydd a wnaed

Statws: Cwblhawyd

Sylwadau

Ar ddechrau 2025-26, gwnaethom lansio 'Hwb Arddull' newydd sy'n darparu siop un stop i'r holl staff ar ganllawiau ysgrifennu a dylunio, gan gynnwys ein templed adrodd archwilio perfformiad newydd. Darperir rhagor o wybodaeth am y prosiect hwn yn **Astudiaeth Achos 3**.

Yn ystod y cyfnod adrodd, gwnaethom barhau i ddatblygu ein gwefan wedi'i hadnewyddu. At ei gilydd, roedd nifer yr ymweliadau â'n gwefan pan fo o leiaf un weithred yn cael ei chyflawni, e.e. lawrlwytho adroddiad, clicio ar fideo (Dangosydd Perfformiad Allweddol 9) yn fwy na'n targed o 53,000 yn gyfforddus. O ganlyniad, rydym wedi ymrwmo i darged uwch o 75,000 ar gyfer y dangosydd perfformiad allweddol hwn yn ein [Cynllun Blynyddol ar gyfer 2026-27](#).

Gwnaethom hefyd adolygu ein defnydd o sianeli cyfryngau cymdeithasol, gyda ffocws ar ddatblygu ein gwefan LinkedIn i hyrwyddo cyfleoedd recriwtio ac effaith ein gwaith yn well. Roedd nifer yr ymgysylltiadau ar y cyfryngau cymdeithasol h.y. rhyngweithiadau â'n postiadau fel hoffi, gwneud sylw, neu ail-drydar/rhannu (Dangosydd Perfformiad 10) yn sylweddol uwch na'n targed drwy gynyddu ychydig dros 50% o 3,500 i 5,300. Rydym hefyd wedi ymrwmo i darged uwch ar gyfer y dangosydd perfformiad allweddol hwn yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2026-27.

Fel rhan o fenter strategol i archwilio'r defnydd posibl o offer AI cynhyrchiol (a drafodwyd yn **Astudiaeth Achos 5**) gwnaethom gynnal cyfres o gynlluniau peilot i benderfynu sut y gall AI wella effaith ac effeithlonrwydd ein cyfathrebiadau o bosibl.

Yn ogystal, ym mis Medi 2025, gwnaethom lansio cylchlythyr e-fwletin allanol wedi'i adnewyddu sy'n mynd allan i oddeutu 1,700 o bobl bob mis, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y newyddion, y mewnwelediadau, y swyddi a'r straeon diweddaraf gan Archwilio Cymru.

Tua diwedd 2024-25, dechreuon ni adolygiad mewnol, gan weithio mewn partneriaeth â'r asiantaeth gyfathrebu FOLK, i ddeall anghenion cyfathrebu ein hamrywiaeth o gynulleidfaedd yn well a helpu i ddatblygu canllawiau i ymgorffori cynhwysiant ymhellach drwy gydol ein prosesau cyfathrebu.

Yn dilyn ystyriaeth o argymhellion yr adolygiad gan y Tîm Arweinyddiaeth Weithredol ddechrau 2025-26, ac ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid mewnol allweddol, gweithredwyd nifer o gamau allweddol yn ystod y cyfnod adrodd. Roedd y rhain yn cynnwys diweddariadau pellach i ganllawiau ysgrifennu i'r holl staff ac adolygiad o'r delweddau a ddefnyddir mewn adroddiadau. Bydd rhagor o fanylion am yr ystod o gamau gwella sy'n cael eu rhoi ar waith yn ein Hadroddiad Cydraddoldeb nesaf.



Astudiaeth achos 3: Gwella safonau ysgrifennu i gryfhau eglurder, hygyrchedd ac effaith

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cymryd camau sylweddol i wella sut mae adroddiadau archwilio perfformiad Archwilio Cymru yn cael eu hysgrifennu. Gwnaethom ddatblygu a chyflwyno safonau ysgrifennu newydd i wneud adroddiadau'n gliriach, yn fwy cyson ac yn haws i'w darllen.

I gefnogi'r newid hwn, gwnaethom weithio gydag ymgynghoriaeth ysgrifennu busnes arbenigol. Gyda'n gilydd, gwnaethom gyflwyno rhaglen hyfforddi ffocws ar gyfer tua 70 o staff archwilio perfformiad. Roedd yr adborth o'r hyfforddiant yn gryf, gyda'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn nodi eu bod yn teimlo'n gadarnhaol ynglŷn â defnyddio'r dull newydd yn eu gwaith. Gwnaethom hefyd gyflwyno templedi adroddiadau symlach a chreu Hwb Arddull ar-lein. Mae hyn yn rhoi siop un stop i staff ar gyfer canllawiau, enghreifftiau ac offer.

Mae'r arwyddion cynnar o effaith yn ymddangos yn addawol. Cytunodd 92% o'r 112 o gyfranogwyr yn ein harolwg rhanddeiliaid yn 2026 fod adroddiadau Archwilio Cymru yn glir, yn hygyrch ac yn hawdd eu deall. Cytunodd 80% o'r cyfranogwyr hynny hefyd fod ein hadroddiadau a'n hallbynnau eraill yn berthnasol ac yn effeithiol. Dangosodd adolygiad mewnol o adroddiadau archwilio a ysgrifennwyd yn ddiweddar yn erbyn ein safonau ansawdd newydd welliannau clir o ran strwythur, tôn ac eglurder hefyd.



Astudiaeth achos 4: Cefnogi llywodraethu ariannol a chorfforaethol da a gwella gwasanaethau yn y GIG

Drwy gydol 2025-26, gwnaethom ddefnyddio amrywiol fecanweithiau i sicrhau bod gwybodaeth o'n chyfrifon GIG a'n gwaith archwilio perfformiad yn cael ei chyfleu'n effeithiol a'i defnyddio i lywio dysgu a gwella perfformiad:

- Tynnodd ein rhestr wirio ar gyfer aelodau'r Bwrdd ar drefniadau arbed costau sylw at arfer da er mwyn helpu i arwain y ddadl ar gyfleoedd ar gyfer gwelliannau cynaliadwy mewn costau.
- Gwnaeth ein sylwadau ar gyllid y GIG yn dilyn ein harchwiliadau cyfrifon, a diweddariad yr offeryn data, helpu rhanddeiliaid i ddeall maint cyffredinol yr her ariannol yn y GIG a rhai o'r tueddiadau sylfaenol.
- Parhaodd ein gwaith asesu strwythuredig i roi sylwadau ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu corfforaethol yng nghyrrff y GIG; cyflwynwyd dysgu o wahanol agweddau ar y gwaith hwnnw i Rwydwaith Cyfoedion Cyfarwyddwyr Llywodraethu Corfforaethol Cymru gyfan.
- Gwnaethom gymryd rhan yn y digwyddiad cymuned ymarfer llywodraethu corfforaethol GIG Cymru gyfan cyntaf, gan roi cyflwyniad ar yr hyn a ddysgwyd o'n gwaith archwilio i gynulleidfa fawr.
- Rhoddodd ein rhaglen o waith archwilio perfformiad lleol fewnwelediad i feysydd o bryder cenedlaethol megis mynd i'r afael â'r ôl-groniad rhestr aros gofal wedi'i gynllunio a llwybrau gofal brys ac argyfwng.
- Mae ein gwaith gofal wedi'i gynllunio wedi tynnu sylw at yr angen am atebion mwy cynaliadwy a chyfleoedd ar gyfer arbedion effeithlonrwydd.
- Tynnodd ein gwaith effaith fawr oedi wrth ryddhau cleifion ar y GIG sylw at ble mae angen rheoli'r galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng yn well er mwyn gwella diogelwch ac effeithlonrwydd y gwasanaethau hynny.

Mae gwerth yr arbedion posibl a nodwyd drwy'r ddau faes gwaith olaf hyn, ynghyd â'r rhai o'n harchwiliad cynharach o wasanaethau cancer, wedi gwneud cyfraniad sylweddol at y ffigur o £46 miliwn a nodwyd gennym yn erbyn Dangosydd Perfformiad Allweddol 7 (Arbedion a nodwyd) ar gyfer y cyfnod 2023-2026.



Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu

Blaenoriaeth

Paratoi ar gyfer y cyfnod ar ôl cwblhau ein strategaeth pum mlynedd gyfredol drwy roi ffocws penodol ar themâu yr ydym wedi'u nodi fel rhai hanfodol wrth lunio diwylliant a model gweithredu Archwilio Cymru yn y dyfodol:

Datblygiadau digidol

Safonau archwilio sy'n esblygu

Cwmpas ein gwaith gan gynnwys datblygiadau mewn adrodd cynaliadwy

Sgiliau a ffurf ein gweithlu

Cynnydd a wnaed

Statws: Cwblhawyd. Mae blaenoriaeth ddilydol sy'n canolbwyntio ar gynyddu digideiddio archwilio wedi'i chynnwys yn ein [Cynllun Blynyddol ar gyfer 2026-27](#)

Sylwadau

Datblygiadau digidol

Ym mis Gorffennaf 2025, gwnaethom lansio Polisi Deallusrwydd Artiffisial (AI) a Mentrau Digidol newydd. Mae'r Polisi yn darparu canllawiau clir i staff ar ddefnydd dyddiol o offer AI cymeradwy, ac ar y broses ar gyfer ystyried a chymeradwyo offer AI newydd (sy'n seiliedig ar [Lawlyfr Deallusrwydd Artiffisial ar gyfer Llywodraeth y DU](#)).

Gan ddechrau ym mis Mawrth 2025, cynhaliodd Archwilio Cymru fenter i archwilio'r defnydd posibl o Microsoft Copilot i wella effeithlonrwydd, cynhyrchiant a hyder digidol ar draws y sefydliad. Darperir sylwadau pellach ar y prosiect hwn yn **Astudiaeth Achos 5**.

Safonau archwilio sy'n esblygu a datblygiadau mewn adrodd cynaliadwy

Ni fu unrhyw ddatblygiadau sylweddol yn y maes hwn yn ystod y cyfnod adrodd. Bydd nifer o safonau archwilio newydd yn cael eu cyflwyno ar gyfer cyfrifon 2026-27, ac rydym yn parhau i fonitro newidiadau sydd ar ddod yn rhagweithiol wrth i ganllawiau newydd ddod, fel y gallwn werthuso'r goblygiadau i Archwilio Cymru ac ymateb yn briodol.

Sgiliau a ffurf ein gweithlu

Yn 2025-26, gwnaethom gyflawni ystod o weithgarwch cynllunio gweithlu strategol, gan gynnwys lansio system rheoli perfformiad newydd a rheoli ein sefydliad wrth i ni barhau i wneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'r ôl-groniad ar ôl y pandemig mewn gwaith archwilio lleol.

Gwnaeth ein Tîm Arweinyddiaeth Weithredol fonitro ystod estynedig o fesurau perfformiad i benderfynu a yw Strategaeth y Gweithlu yn cyflawni fel y bwriadwyd, a chraffu ar sut mae swyddi gwag yn cael eu rheoli i sicrhau bod penderfyniadau recriwtio yn cyd-fynd yn llawn â'r Strategaeth honno.

Darperir sylwadau pellach ar gamau penodol a gymerwyd i uwchsgilio ein staff i gefnogi ein prosiect moderneiddio Gorwelion Archwilio yn **Astudiaeth Achos 6**.



Astudiaeth achos 5: Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial i gefnogi swyddfa fodern

Yn ystod 2025-26, dechreuodd Archwilio Cymru gyflwyno Microsoft Copilot, sef offeryn Deallusrwydd Artiffisial (AI), i gefnogi sut mae ein gwaith yn cael ei gynllunio a'i gyflwyno ac i gefnogi cynhyrchiant personol. I ddechrau, roedd y prosiect yn cynnwys carfan amrywiol o 50 o gydweithwyr mewn cynllun peilot strwythuredig i brofi galluoedd Copilot mewn cyd-destunau archwilio a chorfforaethol.

Defnyddiwyd Copilot mewn ffordd reoledig a chyfrifol i gynorthwyo staff gyda thasgau arferol ond sy'n cymryd llawer o amser er mwyn gwella effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac ansawdd. Er enghraifft, mae timau wedi defnyddio'r offeryn i grynhoi gwybodaeth gefndirol o gyfrolau mawr o ddogfennau, gan eu helpu i baratoi'n gyflymach ar gyfer trafodaethau cynllunio archwiliadau.

Maes defnydd allweddol arall fu trawsgrifio a chrynhai cyfarfodydd. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod sgysiau pwysig yn cael eu cofnodi'n gywir ac yn gyson, gan gefnogi llwybr archwilio clir a dibynadwy.

Mae ein tîm Dadansoddi Data wedi defnyddio AI i gynorthwyo gyda chodio, gyda chydweithwyr yn nodi effeithlonrwydd effeithiol ac ansawdd gwell. Mae defnyddio'r offeryn wedi cefnogi'r tîm i ddatblygu eu sgiliau codio drwy'r her a'r gefnogaeth y mae AI yn eu cynnig.

Mae mesurau diogelwch cryf ar waith i sicrhau bod Copilot yn cael ei ddefnyddio'n briodol. Mae canllawiau clir yn cwmpasu diogelu data, cyfrinachedd, defnydd moesegol a phwysigrwydd adolygu allbynnau'n ofalus gan staff. Mae'r offeryn yn cefnogi ein gwaith, ond mae cyfrifoldeb am allbynnau, casgliadau a dyfarniadau bob amser yn parhau gyda'n pobl.

Mae adborth cynnar gan gyfranogwyr yn tynnu sylw at fwy o hyder wrth ddefnyddio offer digidol a llai o faich gweinyddol. Mewn arolwg staff, roedd 77% o'r ymatebwyr yn ffafriol ar y cyfan ynglŷn â Copilot. Drwy fabwysiadu AI mewn ffordd reoledig a moesegol, mae Archwilio Cymru yn gwella ac yn moderneiddio ein harferion gwaith ac yn helpu i adeiladu gallu digidol ar draws y sefydliad.



Astudiaeth achos 6: Uwchsgilio ein staff ar gyfer y dyfodol

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gyflwyno'r Dystysgrif CIPFA mewn Hanfodion Archwilio Perfformiad i gryfhau ein darpariaeth hyfforddi ar gyfer ymgeiswyr newydd i archwilio perfformiad. Mae'r rhaglen yn darparu sylfaen gref mewn llywodraethu'r sector cyhoeddus ac yn cyflwyno egwyddorion archwilio'r sector cyhoeddus, gyda ffocws penodol ar archwilio perfformiad.

Gwnaethom hefyd enwebu dau gydweithiwr i ddechrau astudio ar gyfer Cymhwyster Archwilio Perfformiad (PfAQ) newydd CIPFA. Mae'r llwybr proffesiynol hwn wedi'i gynllunio i wella gallu dadansoddol archwilwyr y sector cyhoeddus mewn ymateb i heriau polisi cynyddol gymhleth. Mae'r PfAQ yn rhoi cydnabyddiaeth ffurfiol bod archwilio perfformiad yn gofyn am yr un trylwyredd, annibyniaeth, a chydymffurfiaeth â safonau rhyngwladol ag archwilio cyfrifon.

Er mwyn cryfhau ein cynllun hyfforddi graddedigion archwilio cyfrifon presennol, yn 2025-26 cyflwynwyd elfen archwilio perfformiad gyflwyniadol ym mhob blwyddyn o'r rhaglen. Mae hyn yn sicrhau bod hyfforddeion graddedig yn datblygu gwybodaeth, sgiliau a phrofiad perthnasol os ydynt am ddilyn archwiliad perfformiad ar ôl cymhwyso.

Rydym hefyd yn gwella'r cynllun drwy weithredu ACA Cenhedlaeth Nesaf ICAEW, gan ymgorffori galluoedd technegol modern a'r cymwyseddau sgiliau meddal ehangach sydd eu hangen ar archwilwyr heddiw - ac yfory. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn sefydlu Rhaglen Llwybrau newydd, sy'n cynnig dau lwybr mynediad i gymhwyster ACA: prentisiaeth a llwybr gradd ôl-raddedig.

Crynodeb o'n defnydd o adnoddau yn ystod y cyfnod adrodd

87 Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y ffordd rydym yn rhedeg ein busnes, ac yn y ffordd rydym yn darparu adnoddau ar gyfer ein gwaith archwilio.¹⁷ Yn yr adran hon, rydym yn darparu rhywfaint o sylwadau lefel uchel ar sut y gwnaethom reoli ein defnydd o adnoddau yn ystod 2025-26.

Cyflwyno arbedion effeithlonrwydd a rheolaeth ariannol gadarn

Ffynonellau cyllid

- 88 Nodwyd y blaenoriaethau allweddol ar gyfer ein defnydd o adnoddau yn 2025-26 mewn [Amcangyfrif a Gwybodaeth Atodol](#), a ystyriwyd ac a gymeradwywyd gan Bwyllgor Cyllid y Senedd ym mis Tachwedd 2024. Ym mis Mai 2025, cymeradwywyd Amcangyfrif Atodol gan gynyddu ein gofyniad arian parod £389,000 i ariannu cost y cynnydd mewn Yswiriant Gwladol. Oherwydd swyddi gwag a gododd yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ymrwymo i ddychwelyd £58,000 o'r cyllid hwn yn ôl i Gronfa Gyfunol Cymru.
- 89 Disgwylid i tua dwy ran o dair o'n cyllid yn 2025-26 ddod o ffioedd a godir ar gyrff a archwiliwyd yn unol â [Chynllun Ffioedd](#) a gymeradwywyd gan y Senedd. Roedd y rhan fwyaf o'r gweddill yn cynnwys cyllid cymeradwy o Gronfa Gyfunol Cymru, ac roedd ein defnydd ohoni yn destun craffu gan y Bwrdd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn.

Ein Gwariant

- 90 Fel y nodir yn y Datganiad o Alldro Adnoddau (SORO) a'r nodiadau cysylltiedig, roedd ein cyllideb gyfan ar gyfer 2025-26 yn £28.8m; roedd £23.7m (82%) ohono i'w wario ar gostau staff, £4.6m (16%) ar gostau gweithredu eraill megis ein darpariaeth swyddfa, darpariaeth TGCh, hyfforddiant staff a theithio, £280,000 (1%) wedi'i ddyrannu ar gyfer buddsoddiad cyfalaf yn ein darpariaeth swyddfa ac offer TGCh a £187,000 (1%) o gyfalafu prydles eiddo o dan IFRS16.
- 91 Yn 2025-26 gwnaethom danwario'r gyllideb hon o £923,000 a oedd yn cynrychioli 3.2% o'n cyllideb gwariant gros. Ein targed ar gyfer Dangosydd Perfformiad Allweddol 15 yw amrywiant o 2% ac felly ni chyflawnwyd y targed hwn ar gyfer y flwyddyn.

17 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel 'gweithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.

- 92 Y prif reswm am hyn oedd tanwariant sylweddol o (£650,000) mewn costau staff. Gan fod y rhan fwyaf o'n swyddi gwag mewn rolau heb ffioedd a hyfforddeion, roeddem yn dal i allu cyflawni ein huchelgais i leihau'r ôl-groniad o waith archwilio, gan ganiatáu inni bron â chyflawni ein targed incwm o £18,610,000. Darperir dadansoddiad amrywiant pellach yn y [Nodiadau i'r Crynodeb o Alldro Adnoddau](#).
- 93 Buddsoddwyd £262,000 o gyllid cyfalaf gennym, gan gynnwys yn y meysydd canlynol:
- £139,000 ar liniaduron newydd ac offer ymylol yn unol â'n rhaglen amnewid dreigl
 - £78,000 i uwchraddio ein Llwyfannau Archwilio Perfformiad ac Ariannol.
 - £45,000 ar gyfer gwelliannau i'n swyddfeydd.

Defnyddio adnoddau'n effeithiol

- 94 Yn unol â'n gweledigaeth strategol i fod yn sefydliad model, rydym yn parhau i archwilio meysydd ar gyfer arbedion ac effeithlonrwydd ar draws Archwilio Cymru. Yn 2025-26, gwnaethom gyflawni ein targed arbedion costau digyflog o £200,000 ar gyfer y flwyddyn (Dangosydd Perfformiad Allweddol 16) a defnyddio rhai o'r arbedion o swyddi gwag i fuddsoddi yn ein meysydd blaenoriaeth gan gynnwys cefnogi llesiant staff, cynyddu ein heffaith i'r eithaf a gwella ein defnydd o ddata.
- 95 Rydym yn parhau i gyflawni arbedion cylchol blynyddol o dros £200,000 o ganlyniad i'n symudiadau swyddfa diweddar yng Nghaerdydd a Gogledd Cymru. Rydym wedi gwireddu arbedion pellach yn dilyn symud swyddfa Gorllewin Cymru ym mis Ebrill 2025.

Ein hasedau a'n hatebolrwydd

- 96 Mae ein hasedau a'n rhwymedigaethau wedi'u nodi yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn y Datganiadau Ariannol. Mae hyn yn dangos bod ein hasedau net wedi cynyddu £473,000 yn 2025-26. Ysgogwyd y newid yng ngwerth net yn bennaf gan ostyngiad mewn rhwymedigaethau, a'r rhai pwysicaf oedd:
- Gostyngiad o ychydig dros £240,000 yng ngwerth symiau masnach taladwy (credydwyr) a rhwymedigaethau cyfredol eraill.
 - Gostyngiad o ychydig dros £220,000 mewn incwm gohiriedig (ffioedd sydd wedi'u bilio lle nad yw'r gwaith wedi'i gyflawni eto) wrth i ni fynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith archwilio.

Adnoddau ar gyfer y blynyddoedd yn y dyfodol

- 97 Cymeradwyodd Pwyllgor Cyllid y Senedd ein [Hamcangyfrif ar gyfer 2026-27](#) ym mis Tachwedd 2025. Yn yr Amcangyfrif, gofynnwyd am gynnydd o 3.5% i'n galwad sylfaenol o Gronfa Gyfunol Cymru, gan arwain at gynnydd o 2.9% yn ein gofyniad adnoddau cyfan ar gyfer y flwyddyn.
- 98 Yn 2025-26, cynyddodd ein hincwm ffioedd wrth i ni gyflawni mwy o waith archwilio nag mewn blwyddyn nodweddiadol drwy gynyddu nifer y staff sy'n ennill ffioedd a gyflogir i leihau'r ôl-groniad o waith archwilio a gronnwyd yn ystod pandemig COVID-19. Gan ein bod yn disgwyl cwblhau'r ôl-groniad yn ystod 2026-27, mae ein strategaeth gweithlu yn nodi ein cynlluniau i reoli gostyngiad mewn staffio trwy wastraff naturiol, llai o recriwtio a defnyddio contractau tymor byr i osgoi diswyddiadau lle bynnag y bo modd.
- 99 Bydd yr adnoddau hyn yn cael eu defnyddio i gyflawni'r uchelgeisiau a nodir yn ein [Cynllun Blynyddol ar gyfer 2026-27](#) gan gynnwys ein cynlluniau i barhau i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith archwilio.

Sicrhau ymgysylltu effeithiol â'r staff

- 100 Yn ystod y flwyddyn gwnaethom ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau a sianeli cyfathrebu i ymgysylltu â'n gweithwyr. Gwnaethom ddarparu diweddariadau a gwybodaeth hanfodol ar gael mynediad at adnoddau a chymorth, a chasglu adborth ar eu profiadau.
- 101 Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i bob aelod o staff gwblhau ffurflen annibyniaeth flynyddol, lle maent yn cytuno i gydymffurfio â gofynion ein Cod Ymddygiad, [Cod Ymarfer Archwilio](#) a Pholisi Diogelwch Gwybodaeth. Fel rhan o'r broses hon, tynnir sylw at ystod o ddogfennau perthnasol, gan gynnwys ein Canllawiau Gwyngalchu Arian a'n Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd.
- 102 Ym mis Hydref 2025, cynhaliwyd ein harolwg blynyddol o'r holl staff i gadw ein bys ar bwls profiad y gweithwyr a nodi ble mae angen i ni wella. Cwblhaodd 84% o'r staff yr holiadur, a oedd yn cwmpasu ystod o themâu, o arweinyddiaeth a diwylliant y sefydliad hyd at sut mae timau unigol yn gweithredu.
- 103 Mae [crynodedb o ganlyniadau ein harolwg](#) wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan. Roeddem yn falch o weld ein sgôr mynegai ymgysylltu cyffredinol (Dangosydd Perfformiad Allweddol 12) yn codi eto o 71% i 73%. Dyma ein sgôr uchaf erioed ar gyfer y mesur hwn ac mae'n sylweddol uwch na meincnod y Gwasanaeth Sifil ar gyfer 2025 sef 65%.

- 104 Gwellodd sgoriau cadarnhaol hefyd yn ystod y flwyddyn ar draws y rhan fwyaf o'r meysydd thematig a gwmpesir gan yr arolwg. Fodd bynnag, rhoddodd staff adborth hefyd ar rai meysydd i'w gwella ymhellach, gan gynnwys cydnabod a gwobrwyo perfformiad rhagorol, a mireinio ein dull o recriwtio. Mae'r adborth hwn wedi llywio ein cynlluniau busnes ar gyfer 2026-27.
- 105 Yn ogystal, roedd nifer bach o ddatganiadau arolwg lle'r oedd y sgoriau gan staff archwilio perfformiad yn llai ffafriol tu hwnt nag ar gyfer y sefydliad cyfan. Gwnaethom gynnal arolwg dilynol ddechrau 2026 i archwilio'r canlyniadau hyn yn fanylach.

Hyrwyddo iechyd a llesiant


- 106 Rydym yn annog ffordd iach o fyw a chydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith ymhlith ein staff. Rydym hefyd eisiau i'n staff deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n llawn pan fyddant yn profi anawsterau, waeth a oes effaith ar eu gallu i ymgymryd â'u rôl.
- 107 Mae ein polisiau a'n canllawiau rheoli llesiant a phresenoldeb cynhwysfawr yn sicrhau bod unrhyw faterion iechyd a llesiant staff yn cael eu nodi a'u rheoli'n rhagweithiol ac yn sensitif. Yn 2025–26, arhosodd cyfran yr amser cyfan a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch (Dangosydd Perfformiad 14) o fewn ein targed o lai na 4%. Nodir rhagor o fanylion am absenoldeb oherwydd salwch yn ystod y flwyddyn yn yr **Adroddiad Staff**.

- 108 Yn 2025-26, gwnaethom roi llesiant wrth wraidd ein sgysiau rheoli perfformiad, gan gefnogi rheolwyr llinell i ganolbwyntio ar les staff ochr yn ochr â chyflawni rolau. Ategwyd hyn gan:
- a Rhwydwaith o swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl a hyrwyddwyr llesiant a ddarparodd sgysiau anffurfiol, gyda chyfoedion, i staff.
 - b Ein rhaglen gymorth i weithwyr 24/7, sy'n cynnig mynediad i staff at gwrsela cyfrinachol a chymorth emosiynol.
- 109 Gwnaethom hefyd barhau i gyfleu amrywiaeth o fentrau i annog iechyd a llesiant da yn y gwaith, a oedd yn cynnwys:
- a Gwiriadau iechyd Gwybod eich Rhifau a gynigir i'r holl staff
 - b Brechiadau rhag y Ffliw i'r holl staff
 - c Blogiau llesiant, erthyglau a dysgu dros ginio
 - ch Aelodaethau campfa wedi'i disgowntio drwy ein ap buddion
 - d Ad-daliadau profion llygaid

Gwerthfawrogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

- 110 Wrth adrodd ar gyrff cyhoeddus, ac wrth wneud argymhellion, gall yr Archwilydd Cyffredinol annog newidiadau buddiol o ran cydraddoldeb.
- 111 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi ymrwmo i ddarparu amgylchedd gwaith sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth pawb, ein staff ein hunain a'r rhai yr ydym yn dod i gysylltiad â nhw yn ystod ein gwaith. Rydym yn cefnogi'n llwyr hawliau pobl i gael eu trin ag urddas a pharch.
- 112 Mae gennym grŵp staff sefydledig Archwilio Cymru, Pawb, sy'n helpu i sicrhau ymgysylltiad effeithiol â gweithwyr sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau gwarchoddedig.

- 113 Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2026-2030 yn nodi ein hamcanion cydraddoldeb newydd, a ddatblygwyd yn dilyn ymarfer ymgynghori cyhoeddus ym mis Rhagfyr 2025 a mis Ionawr 2026.
- 114 Mae ein Hadroddiad Cydraddoldeb diweddaraf yn crynhoi'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb blaenorol yn 2024-25. Mae'r adroddiad yn cyd-fynd ag offeryn data rhyngweithiol sy'n cyflwyno ein data amrywiaeth y gweithlu a bylchau cyflog. Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad cynnydd ar gyfer 2025-26 yn ddiweddarach yn 2026.
- 115 Mae crynodeb o'r ymatebion i ddatganiadau perthnasol yn ein datganiadau arolwg staff ym mis Hydref 2025 isod.



Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg

- 116 Rydym yn ymfalchïo mewn darparu gwasanaeth archwilio dwyieithog ac rydym wedi ymrwymo i weithredu a chynnal Safonau'r Gymraeg, yr ydym yn eu gweld fel lefel sylfaenol gwasanaeth dwyieithog, nid targed. Mae ein dogfennau cyhoeddus ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, mae gennym wefan gwbl ddwyieithog, a drwy gydol 2025-26 gwnaethom gyfathrebu â'r cyhoedd, cyrff archwiliedig, a'r cyfryngau yn y ddwy iaith.
- 117 Gweler ein [Hysbysiadau Cydymffurfio](#) ar ein gwefan ac ym mis Medi 2025 cyhoeddwyd ein [Hadroddiad Cymraeg](#) blynyddol diweddaraf.
- 118 Yn ystod 2025-26 gwnaethom gynnal sawl menter i hyrwyddo'r Gymraeg, yn fewnol a chyda phartneriaid. Rydym yn parhau i annog staff i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg a'u cefnogi ar eu taith.
- 119 Fodd bynnag, ym mis Mawrth 2026, gwnaethom dderbyn casgliad Comisiynydd y Gymraeg nad oeddem wedi bodloni gofynion Safonau'r Gymraeg yn ein hymgysylltiad â Chlerc Cyngor Cymuned. Roedd y materion a amlygwyd yn annerbyniol ac rydym wedi ymddiheuro am y diffygion a nodwyd.
- 120 Ers i'r mater hwn gael ei godi, rydym wedi rhoi sawl mesur ar waith i atal hyn rhag digwydd eto, gan gynnwys darparu hyfforddiant i staff perthnasol a chyhoeddi atgofion i'r holl staff am ofynion dewis iaith wrth gyfathrebu â chyrrff archwiliedig.
- 121 Mae risg sy'n ymwneud â chydymffurfio â safonau'r Gymraeg hefyd wedi'i hychwanegu at ein cofrestr risg strategol, er mwyn sicrhau monitro a chraffu parhaus ar reolaethau cysylltiedig yn 2026-27.

Cefnogi gwaith cymunedol ac elusennol

- 122 Rydym yn cydnabod y manteision y gall gwaith cymunedol ac elusennol gan staff eu cyflwyno i'r gymuned ehangach ac yn cymeradwyo ein staff am eu hymdrechion unigol. Gall staff gymhwyso'r sgiliau y maent wedi'u datblygu yn y gweithle a gallant ddatblygu sgiliau newydd, gan wella eu morâl, eu hiechyd corfforol a'u cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ar yr un pryd.
- 123 Yn amodol ar ofynion gweithredol, rydym yn cefnogi gweithwyr sy'n dymuno ymgymryd â gweithgareddau cymunedol neu elusennol fel gwaith gofal cymunedol, cymryd rhan mewn prosiectau cadwraeth a gweinyddu digwyddiadau cyhoeddus.
- 124 Dros gyfnod yr adroddiad, cynhaliodd ein staff nifer o ddigwyddiadau codi arian a rhoi rhoddion, gan gynnwys gwerthiant cacennau a'n cyngerdd carolau blynyddol i gefnogi oedolion ag anawsterau dysgu.

Lleihau ein heffaith amgylcheddol

- 125 Mae Archwilio Cymru yn cydnabod yr angen i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd a chwarae ein rhan wrth fynd i'r afael â'r canlynol:
- bygythiad newid yn yr hinsawdd; a'r
 - bygythiadau a achosir i fywyd gwylt a chynefinoedd naturiol gan weithgareddau dynol.
- 126 Yn 2025-26, gwnaethom gynnal ein hachrediad ar Lefel 5 (y lefel uchaf) o Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd, gan ddangos ein hymrwymiad parhaus i reoli amgylcheddol effeithiol. Cwblhawyd archwiliad allanol diweddaraf y Ddraig Werdd ym mis Mehefin 2025.
- 127 Rydym wedi cyhoeddi offeryn data rhyngweithiol sy'n caniatáu i'r darlennydd archwilio sut rydym wedi perfformio dros y blynyddoedd diwethaf yn erbyn ein mesurau cynaliadwyedd amgylcheddol ar allyriadau nwyon tŷ gwydr, defnydd adnoddau cyfyngedig, a rheoli gwastraff. Mae paratoi'r offeryn hwn wedi'i lywio gan ganllawiau diweddaraf i gyrff cyhoeddus ar adrodd cynaliadwyedd Trysorlys EF a Chanllaw adrodd sero net sector cyhoeddus Cymru.
- 128 Yn gyffredinol, gostyngodd cyfanswm ein hallyriadau cyfwerth â CO₂ (DPA 17) o 318 tonnall yn 2022-23 i 370 tonnall yn 2024-25 ond parhaodd i aros islaw ein targed o ostyngiad o 50% ar waelodlin 2019. Roedd hyn yn bennaf oherwydd lefelau uwch o bresenoldeb staff yn ein swyddfeydd a safleoedd y cyrff archwiliedig, fel rhan o'n gwaith o symud i'r model gweithio hybrid gorau posibl gyda chymysgedd priodol o weithio wyneb yn wyneb ac ar-lein.
- 129 Drwy gydol y cyfnod adrodd, gyda mewnbwn gan Weithgor Lleihau Carbon mewnol a rhwydweithio allanol, gwnaethom barhau â'n gwaith cynllunio ar gyfer sut y byddwn yn cyfrannu at gyflawni nodau carbon sero net tymor hwy Cymru.
- 130 Yn ogystal, rydym wedi ymrwymo i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth i'r graddau y mae'n gyson â'n swyddogaethau. Ym mis Rhagfyr 2025, gwnaethom gyhoeddi Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau Adroddiad ar gyfer 2023-2025 a'r Cynllun ar gyfer 2026-2028. Mae ein blaengynllun yn nodi tri amcan penodol a champau allweddol cysylltiedig i'n helpu i gyflawni Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Drwy gydol 2025-26, cynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi cyflawni'r amcanion hyn, fel y nodir yn ein trydydd adroddiad ar gydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd.

131 Mae'r adrannau isod yn rhoi mwy o fanylion am y cynnydd a wnaethom dros y flwyddyn ddiwethaf o ran lleihau ein heffaith amgylcheddol mewn meysydd allweddol.

Teithio busnes

132 Mae Archwilio Cymru yn gweithredu model gweithio hybrid lle mae staff yn cael eu hannog i wneud y canlynol:

- a gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch ble maent yn gweithio, gan ddewis yr amgylchedd gwaith mwyaf addas i gyflawni canlyniadau llwyddiannus;
- b cydbwysu manteision cydweithredu yn y swyddfa gyda'r hyblygrwydd o weithio gartref.

133 Mae mabwysiadu ffyrdd mwy craff a hyblyg o weithio fel hyn, gyda chymorth ein llwyfannau TG a digidol, yn lleihau'r angen i staff deithio a'n hól troed amgylcheddol cyffredinol.

134 Fodd bynnag, mae rhywfaint o deithio busnes yn parhau i fod yn hanfodol er mwyn i ni gyflawni ein harchwiliad a swyddogaethau eraill yn effeithiol. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mynychodd staff Archwilio Cymru ein swyddfeydd a safleoedd cyrff archwiledig yn fwy rheolaidd nag o'r blaen yn y cyfnod ar ôl COVID-19, sydd wedi effeithio ar gynnydd tuag at gyrraedd ein targed Dangosyddion Perfformiad Allweddol o ostyngiad o 50% mewn allyriadau cyfwerth â CO₂ o'i gymharu â gwaelodlin cyn COVID-19.

135 Mae ein Cynllun Lleihau Carbon, ein Cynllun Teithio Cynaliadwy a'n Llawlyfr Teithio a Threuliau yn parhau i'n helpu i leihau effeithiau amgylcheddol ac ariannol teithio busnes a chymudo ac annog lefelau uwch o weithgarwch corfforol er budd iechyd a llesiant.

136 Drwy gydol y cyfnod adrodd, roedd yr holl staff:

- a wedi cael cynnig opsiwn patrwm gweithio oriau cryno;
- b wedi cael cynnig cyfranogiad mewn cynllun beicio i'r gwaith;
- c wedi cael cynnig cyfranogiad mewn cynllun prydlesu ceir sy'n aberthu cyflog i annog pobl i ddefnyddio cerbydau trydan a hybrid;
- d wedi'u cyfeirio at gymhellion ac adnoddau eraill i hyrwyddo teithio llesol.

137 Mae gan bob un o'n lleoliadau swyddfa orsafoedd gwefru cerbydau trydan, cyfleusterau beicio a chawodydd i hyrwyddo teithio llesol.

Ein hegwyddorion teithio busnes cynaliadwy



Dylid ystyried dewisiadau amgen i deithio er enghraifft galwad fideo cyn cytuno i gwrdd rhywun yn bersonol



Dylai lleiafswm nifer y cyflogeion y mae eu hangen deithio



Dylid defnyddio trafndiaeth gyhoeddus pan fo hynny'n bosibl



Rydym yn annog rhannu ceir pan nad yw trafndiaeth gyhoeddus yn ddewis dichonadwy



Dylai unigolion chwilio am y dewis mwyaf cynaliadwy posibl, gan bwysu a mesur yr holl ystyriaethau perthnasol er enghraifft iechyd a diogelwch, llesiant a gwerth am arian

Ystad

- 138 Fel y nodwyd yn fanylach yn ein [Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2024-25](#), rhwng 2023 a 2025 gwnaethom adleoli ein tair swyddfa i safleoedd llai, mwy modern sy'n agos at gysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus a pherfformiad amgylcheddol llawer gwell.
- 139 Gellir gweld effaith y symudiadau hyn drwy ostyngiad o 63% mewn allyriadau carbon a briodolir i ddefnydd ynni a defnydd adnoddau naturiol ar draws ein hystâd yn 2025-26 o'i gymharu â 2022-23. Mae ein defnydd o ynni yn unig wedi gostwng 58% yn y cyfnod hwn.
- 140 Mae biniau ailgylchu wedi'u lleoli'n addas ym mhob un o'n swyddfeydd i gasglu'r ffrydiau [gwastraff ar wahân angenrheidiol](#). Mae ein defnydd o blastigion untro defnyddwyr hefyd yn isel iawn, ac ar gyfer y rhan fwyaf o ddanfoniadau yn 2025-26 gwnaethom ddewis peidio â defnyddio pecynnu yn gyfan gwbl. At ei gilydd, mae ein cynhyrchiad o wastraff wedi lleihau 26 tunnell ers 2022-23.
- 141 Drwy gydol y cyfnod adrodd, gwnaethom ddefnyddio cynlluniau ailddefnyddio yn rhagweithiol i leihau ein defnydd o adnoddau cyfyngedig, a chyfran ein gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi.
- 142 Mae ein holl staff yn defnyddio gliniaduron a ffonau clyfar sy'n lleihau'r angen i argraffu papurau cyfarfod.

Caffael

- 143 Drwy gydol y cyfnod adrodd, mae ein gweithgareddau caffael wedi dilyn hierarchaeth sy'n blaenoriaethu osgoi, ailddefnyddio, adnewyddu ac ailgylchu cyn prynu rhai newydd. Mae'r hierarchaeth hon yn rhan o ddull 'economi gylchol' ar gyfer prynu ein cyflenwadau a'n hoffer. Yn 2025-26, gwnaethom ddatblygu ymhellach ein dulliau ar gyfer ystyried gwerth cymdeithasol yn ein gweithgareddau caffael, yn barod i'w cymhwyso i dendro a'r gadwyn gyflenwi yn 2026-27.
- 144 Yn benodol mewn perthynas â'n caffaeliad o offer TG, rydym yn blaenoriaethu diogelwch, effeithlonrwydd ynni ac ailddefnyddio dyfeisiau, ochr yn ochr ag anghenion defnyddwyr.



Adroddiad Atebolrwydd

Datganiadau ac adroddiadau allweddol sy'n ein galluogi i fodloni gofynion atebolrwydd a dangos cydymffurfiaeth â llywodraethu corfforaethol da.

Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Swyddog Cyfrifyddu

25 Mehefin 2026

02

Adroddiad llywodraethu corfforaethol

- 145 Mae'r adroddiad llywodraethu corfforaethol yn egluro cyfansoddiad a threfniadaeth strwythurau llywodraethu Archwilio Cymru a sut maent yn cefnogi cyflawniad ein hamcanion strategol.
- 146 Mae'n cynnwys gwybodaeth allweddol sy'n ein galluogi i fodloni gofynion atebolrwydd a dangos cydymffurfiaeth â llywodraethu corfforaethol da.

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Ein Bwrdd



Adrian Crompton
Archwilydd
Cyffredinol Cymru



Anne Beegan
Aelod cyflogai
etholedig



Bethan Jones
Aelod anweithredol



Chris Bolton
Aelod cyflogai
etholedig



Darren Griffiths
Aelod cyflogai
penodedig



David Francis
Aelod anweithredol

**Dr Ian Rees**

Cadeirydd
anweithredol y
Bwrdd

**Mike Norman**

Aelod anweithredol

**Richard Thurston**

Aelod anweithredol

Ein Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol

**Adrian Crompton**

Archwilydd
Cyffredinol Cymru
a'r Prif Weithredwr

**Ann-Marie Harkin**

Cyfarwyddwr
Gweithredol ar
gyfer Cyflawni
Archwiliadau

**Derwyn Owen**

Cyfarwyddwr
Gweithredol
Moderneiddio ac
Effaith Archwilio

**Kevin Thomas**

Cyfarwyddwr
Gweithredol
Gwasanaethau
Corfforaethol

147 Mae'r arddangosfeydd yn yr adran hon yn dangos cyfansoddiad y Bwrdd a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol (TAG) ar 31 Mawrth 2026. Ar gyfer y rhestr lawn o unigolion sydd wedi bod yn aelodau o'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn ystod 2025-26, gweler y **Tabl Presenoldeb yn y Datganiad Llywodraethu**.

Cofrestr o fuddiannau

148 Rhaid i aelodau'r Bwrdd a TAG ddarparu manylion am unrhyw gyfarwyddwyr cwmni a buddiannau arwyddocaol eraill a allai wrthdaro â'u cyfrifoldebau ac yn cyflwyno risgiau i annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol. Gellir cyrchu cofrestrau buddiannau ar gyfer aelodau unigol o'r Bwrdd a TAG drwy'r dolenni 'Darllen Mwy' ar y [dudalen Pwy yw pwy](#) ar ein gwefan.

Archwilydd Swyddfa Archwilio Cymru

- 149 Mae RSM UK Audit LLP wedi ei benodi'n archwilydd allanol Swyddfa Archwilio Cymru gan Bwyllgor Cyllid y Senedd ers 1 Mawrth 2015, yn fwyaf diweddar am gyfnod o 48 mis sy'n dechrau ar 1 Tachwedd 2022.
- 150 Yn ogystal â'u gwaith i ffurfio barn ar y datganiadau ariannol a'r rheoleiddra, caiff yr archwilydd gynnal archwiliadau i'r economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y mae'r Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru wedi defnyddio adnoddau i gyflawni eu swyddogaethau.
- 151 Datgelir manylion cost gwasanaethau archwilio allanol yn y **Nodiadau i'r datganiadau ariannol**.

Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

- 152 O dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Archwilydd Cyffredinol Cymru yw Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru a rhaid iddo, ar gyfer pob blwyddyn ariannol:
- cadw cyfrifon priodol a chofnodion priodol mewn perthynas â hwy;
 - paratoi datganiad o gyfrifon.
- 153 Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail cronïadau a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o gyflwr Swyddfa Archwilio Cymru ac o'i hincwm a'i gwariant, ei Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, a'i llif arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

- 154 Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, ac yn benodol i:
- a cadw at Gyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Drysorlys EF, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisiau cyfrifyddu addas yn gyson;
 - b gwneud barnau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
 - ch nodi a yw safonau cyfrifyddu cymwys fel y nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth wedi'u dilyn a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon;
 - d paratoi'r cyfrifon ar sail busnes parhaus.
- 155 Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau Swyddfa Archwilio Cymru, wedi'u nodi yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Disgrifir cyfrifoldebau ychwanegol yn y Memorandwm ar gyfer Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, a gyhoeddwyd gan y Senedd.
- 156 Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n cadarnhau:
- a Bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon hwn yn ei gyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, ac rwy'n cymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r dyfarniadau sydd eu hangen i benderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.
 - b Rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.
 - c Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwybodol ohoni.

Datganiad Llywodraethu

- 157 Mae'r datganiad hwn yn nodi strwythur rheoli Swyddfa Archwilio Cymru ac yn darparu cyfrif o lywodraethu corfforaethol a rheoli risg. Mae'r systemau a'r fframwaith yn y datganiad hwn wedi bod ar waith ar gyfer y flwyddyn dan adolygiad a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon.
- 158 Fel Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, rhaid i mi geisio sicrhau bod:
- y cynhelir system gadarn o reolaeth fewnol yn Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys proses archwilio fewnol gadarn, i gefnogi'r gwaith o arfer swyddogaethau statudol yn briodol;
 - rheoli cyfleoedd a risg Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflawni'r cydbwysedd cywir sy'n gymesur â busnes yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru.

Llywodraethu corfforaethol

Y fframwaith llywodraethu

- 159 Mae fframwaith llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys gwybodaeth am gwmpas gwaith y Bwrdd a'i bwyllgorau, wedi'i grynhof yn yr arddangosyn dros y dudalen.
- 160 Mae ein Bwrdd o naw aelod yn cynnwys mwyafrif o bum aelod anweithredol (gan gynnwys y Cadeirydd), yr Archwilydd Cyffredinol, aelod cyflogai a benodwyd ar argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol a dau aelod cyflogai etholedig. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn ffurfiol o leiaf chwe gwaith y flwyddyn.
- 161 Mae yna Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol y mae ei gyfrifoldebau'n cynnwys: dirprwyo ar gyfer y Cadeirydd pan nad ydynt yn gallu gweithredu; gwerthuso perfformiad y Cadeirydd; derbyn datgeliadau gan chwythwyr chwiban y tu allan i'r gadwyn rheoli llinell arferol; a goruchwylio ethol aelodau cyflogai i'r Bwrdd.
- 162 Mae'r berthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol yn cael ei llywodraethu gan God Ymarfer sy'n cael ei gymeradwyo gan y Senedd ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

- 163 Mae'r Bwrdd wedi sefydlu dau bwyllgor sy'n gweithredu mewn capasiti cynghori. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) yn cynnwys tri aelod anweithredol o'r Bwrdd, aelod o'r Bwrdd sy'n weithiwr ac aelod allanol annibynnol. Mae'r Pwyllgor Taliadau ac Adnoddau Dynol (RHRC) yn cynnwys tri aelod anweithredol o'r Bwrdd a dau aelod o'r Bwrdd sy'n weithiwr.
- 164 Mae'r Bwrdd yn fodlon nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau yn aelodaeth eu pwyllgor a, lle mae gwrthdaro'n codi, eu bod yn cael eu rheoli a'u lliniaru'n effeithiol. Nid yw aelodau'r Bwrdd sy'n weithwyr yn aelodau o'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol nac yn ymwneud â gwneud penderfyniadau ar lefel uwch ac eithrio yn rhinwedd y Bwrdd.
- 165 Rwy'n cadeirio Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol (TAG) i gyfarwyddo, goruchwylio a monitro gweithredu'r blaenoriaethau a nodir yn ein Cynllun Blynyddol. Mae'n cyfarfod o leiaf unwaith y mis ac yn cynnwys fi a thri Chyfarwyddwr Gweithredol. Yn ystod 2025-26, roedd aelodau o Banel Staff hefyd yn mynychu cyfarfodydd TAG ar sail cylchdro i ddod â phersbectif y gweithiwr i'r trafodaethau.
- 166 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn cael eu cefnogi gan Ysgrifennydd y Bwrdd. Mae gan y Bwrdd flaenraglen o fusnes sy'n helpu i lywio agendâu ac mae wedi'i chynllunio i sicrhau bod busnes yn cael ei gynnal mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.
- 167 Ceir rhagor o wybodaeth am aelodaeth y Bwrdd a'r TAG yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr.

Pwyllgor Cyllid y Senedd

Yn craffu ar ddefnydd adnoddau Swyddfa Archwilio Cymru, yn argymhell penodiad yr Archwilydd Cyffredinol ac aelodau anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn gyfrifol am benodi archwilydd allanol Swyddfa Archwilio Cymru.



Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

Yn monitro'r broses o arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol.

Yn cynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Yn cyflogi staff ac yn darparu adnoddau fel bod modd arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol.

Yn codi tâl am waith sydd wedi'i wneud gan yr Archwilydd Cyffredinol.

Yn cydweithio â'r Archwilydd Cyffredinol i amcangyfrif incwm a threuliau, y cynllun ffioedd, y cynllun blynyddol, adroddiad/adroddiadau interim ac adroddiad blynyddol.



Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol

Yn cynghori'r Bwrdd trwy herio a chraffu ar dri maes cyffredinol o'r gwaith rheoli a datblygu adnoddau dynol:

- llywodraethu;
- perfformiad; a
- pholisi a thaliadau cydnabyddiaeth.



Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Yn cynghori'r Bwrdd trwy:

- adolygu pa mor gynhwysfawr a dibynadwy yw ffynonellau sicrwydd corfforaethol;
- adolygu uniondeb yr adroddiad blynyddol a chyfrifon; a
- chyflwyno barn ar y cymorth sydd ar gael fel bod y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu yn gallu cyflawni eu dyletswyddau perthnasol.



Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol

Yn cyfarwyddo ac yn goruchwyllo gweithrediad yr amcanion strategol a'r rhaglenni gwaith a ddisgrifir yng Nghynllun Blynyddol Archwilio Cymru.

Yn gweithredu fel bwrdd rhaglen rheoli newid, gan osod cyfeiriad y rhaglen a darparu adnoddau ar gyfer ei gweithredu.



Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd, y Pwyllgor a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol 2025-26

Tabl yn dangos nifer cyfarfodydd y Bwrdd, y pwyllgor a'r TAG a gynhaliwyd yn 2025-26 a phresenoldeb aelodau.

	Bwrdd ¹⁸	ARAC	RHRC	TAG
Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd	6	4	4	25
Aelodau'r Bwrdd a'i bwyllgorau				
Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol a Phrif Weithredwr ¹⁹	6	4	4	25
Alison Gerrard, Aelod anweithredol ²⁰	1		1	
Anne Beegan, Aelod cyflogai etholedig	6	4		
Bethan Jones, Aelod anweithredol ²¹	6	1	3	
Chris Bolton, Aelod cyflogai etholedig ²²	6	2	3	
Darren Griffiths, Aelod cyflogai penodedig	3		3	
David Francis, aelod anweithredol, Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol a Chadeirydd ARAC	6	4		
Dr Ian Rees, Aelod anweithredol a Chadeirydd y Bwrdd ²³	6	4	3	1
Mike Norman, Aelod anweithredol ²⁴	6	4	1	
Richard Thurston, Aelod anweithredol a Chadeirydd yr RHRC	6		4	

18 Ar 17-18 Rhagfyr 2025, cynhaliodd y Bwrdd a'r TAG weithdy datblygu hefyd i ystyried sut i wneud y gorau o'u rolau a'u perthnasoedd gwaith priodol, a datblygu blaenoriaethau'r Bwrdd ar gyfer 2026-27.

19 Mynychodd Adrian Crompton gyfarfodydd ARAC ac RHRC yn rhinwedd ei swydd fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu.

20 Daeth tymor swydd Alison Gerrard fel aelod anweithredol i ben ar 30 Mehefin 2025. Roedd hi wedi cyflawni rôl Cadeirydd RHRC yn flaenorol.

21 Penodwyd Bethan Jones gan y Senedd yn aelod anweithredol o'r Bwrdd ar 01 Gorffennaf 2025. Mynychodd un cyfarfod ARAC fel sylwedydd yn rhinwedd ei swydd fel aelod anweithredol o'r Bwrdd ac un cyfarfod o'r Bwrdd fel sylwedydd yn rhinwedd ei swydd fel aelod anweithredol dynodedig.

22 Mynychodd Chris Bolton ddau gyfarfod ARAC fel sylwedydd yn rhinwedd ei swydd fel aelod cyflogai etholedig o'r Bwrdd.

23 Mynychodd Dr Ian Rees un cyfarfod TAG fel sylwedydd yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Bwrdd.

24 Ar gais y Cadeirydd ac yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor, mynychodd Mike Norman un cyfarfod RHRC i sicrhau bod cworwm yn y cyfarfod gyda mwyafrif o aelodau anweithredol yn bresennol.

	Bwrdd ¹⁸	ARAC	RHRC	TAG
Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd	6	4	4	25
Owen Purcell, Aelod annibynnol o ARAC ²⁵	1	4		
Aelodau'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol (nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd) ²⁶				
Anne-Louise Clark ²⁷	2	1		9
Ann-Marie Harkin	6	2		20
Derwyn Owen ²⁸	6	3		17
Kevin Thomas	6	4	4	23

Cyfrif llywodraethu corfforaethol

- 168 Mae'r Bwrdd yn derbyn sicrwydd bod ei amcanion yn cael eu cyflawni drwy:
- Adroddiadau rheoli mewnol, adroddiadau perfformiad a sesiynau briffio cyfoes
 - Adroddiadau mewnol annibynnol, gan gynnwys adroddiadau archwilio mewnol ac adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol
 - Adroddiadau archwilio allanol
- 169 Mae'r Bwrdd yn fodlon bod lefel y sicrwydd a geisir ac a ddarperir yn gymesur â'r lefelau cysylltiedig o risg a aseswyd. Mae'r Bwrdd hefyd yn fodlon ar ansawdd y wybodaeth y mae'n ei derbyn, gan gynnwys drwy adroddiad perfformiad integredig chwarterol sy'n cael ei ategu gan ddata a gyflwynir mewn dangosfwrdd gwybodaeth reoli rhyngweithiol. Mae aelodau anweithredol o'r Bwrdd a Chyfarwyddwyr Gweithredol yn cwrdd yn rheolaidd i sicrhau bod gwaith y Bwrdd, ei Bwyllgorau a'r TAG yn cyd-fynd.
- 170 Mae'r Bwrdd yn ddarostyngedig i God Ymddygiad Archwilio Cymru, ac mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn cynnal cofrestr buddiannau aelodau sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol a'u diweddarau yn ystod y flwyddyn i gofnodi unrhyw newidiadau a hysbysir gan aelodau.

25 Mynychodd Owen Purcell un cyfarfod o'r Bwrdd fel sylwedydd yn rhinwedd ei swydd fel aelod annibynnol ARAC.

26 Mynychodd y Cyfarwyddwyr Gweithredol gyfarfodydd yr ARAC a'r RHRC yn ôl yr angen i oi sesiynau briffio, cymryd rhan mewn trafodaethau neu gymryd eu cyngor. Mae ganddynt wahoddiad parhaol i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd.

27 Gadawodd Anne-Louise Clark Archwilio Cymru 31 Gorffennaf 2025.

28 Penodwyd Derwyn Owen yn gyfarwyddwr Gweithredol Moderneiddio Archwilio ac Effaith 01 Awst 2025 Mynychodd un cyfarfod y TAG i gymryd rhan mewn trafodaethau yn ei rôl flaenorol fel Cyfarwyddwr Archwilio. Mynychodd ddau gyfarfod y TAG a dau gyfarfod y Bwrdd yn rhinwedd ei swydd fel darpar Gyfarwyddwr Gweithredol.

- 171 Mae gan Gadeirydd y Bwrdd a chadeiryddion ei bwyllgorau hawl mynediad, a gallant adrodd unrhyw faterion sy'n peri pryder, yn uniongyrchol i Gadeirydd Pwyllgor Cyllid y Senedd.
- 172 Mae gan yr archwilwyr mewnol ac allanol fynediad agored a chyfrinachol at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor yn cynnal sesiwn breifat gyda'r archwilwyr mewnol ac allanol cyn pob cyfarfod pwyllgor.
- 173 Ar sail wirfoddol, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn asesu ei threfniadau yn erbyn gofynion y Cod Ymarfer Da ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol mewn adrannau llywodraeth ganolog. Mae'r Bwrdd yn fodlon ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion hynny i'r graddau y maent yn berthnasol ac yn ymarferol o ystyried yr angen i ddiogelu annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol. Nid yw'r trefniadau'n cydymffurfio â holl ofynion y Cod oherwydd:
- Nid adran weinidogol yw Swyddfa Archwilio Cymru, ac nid yw'n adrodd i weinidogion na'u swyddogion nac yn derbyn cyfarwyddiadau ganddynt.
 - Mae rôl a chyfrifoldebau'r Bwrdd a'i aelodaeth wedi'u nodi mewn statud.
- 174 Yn ogystal, nid yw'r Bwrdd wedi sefydlu pwyllgor enwebiadau, ond mae'r swyddogaethau a ddisgrifir yn y Cod yn cael eu cyflawni gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac AD.

Adolygiad perfformiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd

- 175 Yn 2025-26, comisiynodd y Bwrdd werthusiad annibynnol o'i effeithiolrwydd yn unol ag arfer da a nodir yn y Cod Llywodraethu Corfforaethol. Ystyriodd y Bwrdd y canlyniadau ym mis Rhagfyr 2025. Daeth yr asesiad i'r casgliad bod y Bwrdd yn effeithiol ac yn gweithredu yn ail chwarter o raddfa Asesiad Eithriadol y Bwrdd. Mae'r Bwrdd wedi datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r meysydd gwelliant a nodwyd ac wedi cytuno i gynnal hunanasesiad o'i effeithiolrwydd yn 2026-27.
- 176 Fel rhan o'u gofynion adrodd blynyddol, mae pob pwyllgor Bwrdd yn cwblhau hunanasesiad o'u heffeithiolrwydd. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn asesu ei hun yn erbyn yr egwyddorion arfer da a ddisgrifir yn Llawlyfr Pwyllgor Archwilio Trysorlys EF. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac AD wedi addasu'r asesiad hwnnw i sicrhau ei fod yn berthnasol ac yn gymesur â'i gylch gorchwyl. Mae'r Bwrdd yn fodlon â chadernid yr asesiadau ac yn nodi nad oes unrhyw faterion sy'n peri pryder ar hyn o bryd.
- 177 Mae gan y Bwrdd broses ar waith ar gyfer cynnal asesiadau perfformiad aelodau sy'n gweithredu ar gylch o 12 i 18 mis. Fe'u cwblhawyd ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2025.

178 Mae gan y Bwrdd gynllun dysgu a datblygu sy'n cael ei adolygu'n flynyddol. Mae'r cynllun yn nodi'r trefniadau ar gyfer hyfforddiant sefydlu ac ar gyfer diwallu anghenion dysgu a datblygu parhaus a nodwyd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys y rhai a nodwyd drwy'r prosesau gwerthuso annibynnol ac arfarnu perfformiad.

Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

179 Cyflwynodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ei adroddiad blynyddol i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu ym mis Mehefin 2026, gan grynhoi ei gasgliadau o'r gwaith a wnaeth yn ystod 2025-26.

180 Rhoddodd y Pwyllgor sicrwydd bod:

- a Mae adrodd ariannol yn gyson â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a pharatoir adroddiadau yn unol â pholisïau cyfrifyddu priodol.
- b Ymddengys bod y trefniadau asesu risg a rheoli risg yn gadarn ac yn gweithredu'n effeithiol o fewn fframwaith rheoli mewnol clir.
- c Mae trefniadau ar gyfer nodi ac adrodd am gamweddau fel twyll, llwgrwobrwyo, llygredd a gwyngalchu arian yn gadarn ac yn unol ag arfer da.
- ch Mae trefniadau atal twyll Swyddfa Archwilio Cymru yn gadarn, mae polisïau a chanllawiau'n gyfredol, ac mae risgiau twyll yn cael eu cofnodi o fewn fframwaith risg a sicrwydd Swyddfa Archwilio Cymru ac maent yn destun craffu rheolaidd.
- d Mae trefniadau seiberddiogelwch ymarferol Swyddfa Archwilio Cymru yn gadarn, gyda buddsoddiadau wedi'u gwneud mewn moderneiddio seilwaith i gryfhau gwydnwch, a sicrwydd pellach yn cael ei ddarparu drwy achrediad allanol gyda Cyber Essentials Plus.

181 Roedd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r cymorth a'r ymgysylltiad agored a gonest y mae wedi'i dderbyn gan y rheolwyr, a chan yr archwilwyr mewnol ac allanol yn ystod y cyfnod adrodd.

182 Parhaodd y Pwyllgor i adolygu perfformiad yr archwilwyr mewnol ac allanol dros gyfnod y flwyddyn, ac mae'n fodlon nad yw'r adolygiad hunanasesu o'i effeithiolrwydd ei hun a gynhaliwyd yng Ngwanwyn 2026 wedi datgelu unrhyw feysydd pryder sylweddol.

Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac AD

- 183 Yn 2025-26, craffodd y Pwyllgor ar ystod eang o faterion yn unol â'i gylch gorchwyl. Roedd y rhain yn cynnwys:
- a Adolygu a monitro systemau a phrosesau rheoli perfformiad.
 - b Ystyried ac argymhell strategaeth gyflog.
 - c Adolygu datblygiad y Cynllun Gweithlu Strategol a chyflawni blaenoriaethau'r ail flwyddyn.
 - ch Cynnal adolygiadau o bolisiâu a phrosesau sy'n ymwneud â hunaniaeth rhywedd a thrawsnewid, dylunio sefydliadol a gweithlu, gweithio'n ddoethach, absenoldeb salwch, a'n cytundeb gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol;
 - d Adolygu gweithrediad y system a'r broses rheoli perfformiad ddiwygiedig.
- 184 Roedd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi bod y rheolwyr wedi ymgysylltu'n agored â'r Pwyllgor ac wedi ymateb yn gadarnhaol i adborth ac awgrymiadau'r Pwyllgor.
- 185 Ar y cyfan, adroddodd y Pwyllgor ei fod yn fodlon bod trefniadau cydnabyddiaeth ariannol ac AD Swyddfa Archwilio Cymru:
- a yn cefnogi nodau strategol y Bwrdd;
 - b yn galluogi cynnal busnes yn effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd gan gynnwys recriwtio, cymell a chadw staff;
 - c yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddio, gan gynnwys sicrhau bod y datgeliadau yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol blynyddol yn unol â gofynion cyfreithiol.
- 186 Mae'r Pwyllgor yn fodlon nad yw'r adolygiad hunanasesu o'i effeithiolrwydd a gynhaliwyd yng Ngwanwyn 2026 wedi datgelu unrhyw feysydd sy'n peri pryder sylweddol.

Adroddiad yr Archwilydd Mewnol

- 187 Penodwyd TIAA yn archwilwyr mewnol Swyddfa Archwilio Cymru am gyfnod o bedair blynedd (gan gynnwys estyniad o un flwyddyn) a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2026. Paratowyd strategaeth a chynllun archwilio mewnol ar gyfer 2025-26 gan y Prif Weithredwr Archwilio a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2025.
- 188 Yn ystod y cyfnod adrodd, cyhoeddwyd saith adroddiad archwilio mewnol. Cynhaliwyd system olrhain i ddilyn argymhellion archwilio a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt.

189 Yn y datganiad sicrwydd blynyddol ar gyfer 2025-26, nododd y Pennaeth Archwilio Mewnol:

‘Mae TIAA yn fodlon, ar gyfer y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, bod gan Archwilio Cymru brosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu rhesymol ac effeithiol ar waith.

Mae'r farn hon yn seiliedig yn unig ar y materion a ddaeth i sylw TIAA yn ystod yr adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ac nid yw'n farn ar bob elfen o'r prosesau rheoli, rheoli a llywodraethu risg na'r hyfywedd ariannol parhaus na'ch gallu i fodloni rhwymedigaethau ariannol y mae'n rhaid i Archwilio Cymru eu cael o'i wahanol ffynonellau sicrwydd.'

190 Yn dilyn ymarfer tendro a gynhaliwyd o dan gytundeb Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd Gwasanaethau Masnachol y Goron tua diwedd 2025, penodwyd Validera yn archwilwyr mewnol Swyddfa Archwilio Cymru am gyfnod cychwynnol o dair blynedd yn dechrau ar 1 Ebrill 2026.

Tabl yn rhestru'r adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn 2024-25 a'r asesiad cyffredinol

Adolygiad archwilio mewnol	Dyddiad cyhoeddi	Asesiad cyffredinol
Rheoli risg	Mehffin 2025	Sicrwydd rhesymol
Cynllunio'r gweithlu	Awst 2025	Sicrwydd rhesymol
Cynllun lleihau carbon	Awst 2025	Sicrwydd rhesymol
Caffael	Awst 2025	Sicrwydd sylweddol
Diogelu data	Tachwedd 2025	Sicrwydd rhesymol
Rheolaethau ariannol allweddol	Chwefror 2026	Sicrwydd rhesymol
Seiberddiogelwch	Chwefror 2026	Sicrwydd rhesymol

Rheoli risg

191 Wrth redeg ein busnes, rydym wedi ymrwymo i gymhwyso'r egwyddorion a nodir yn [Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru](#) a [Llyfr Oren](#) Llywodraeth y DU ar gyfer rheoli risgiau.

Parodrwydd i dderbyn risg

192 Mae'r meysydd allweddol lle gall risgiau godi a bygwth y gallu i gyflawni ein gwaith yn llwyddiannus, a chrynodeb lefel uchel o'n parodrwydd i dderbyn risg ym mhob un o'r meysydd hyn, wedi'u nodi yn ein Cynllun Blynyddol diweddaraf. Mae hyn yn darparu'r pwynt cyfeirio yr ydym yn meincnodi gweithgarwch rheoli risg a lliniaru yn ei erbyn o fewn y sefydliad.

Fframwaith rheoli risg

- 193 Mae'r Bwrdd yn goruchwyllo trefniadau rheoli risg yn Archwilio Cymru. Mae'r Bwrdd yn cael ei gefnogi gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, y mae ei gyfrifoldebau'n cynnwys adolygu a chynghori'r Bwrdd ar:
- Strategaeth risg, gan gynnwys y dull o bennu parodrwydd i dderbyn risg
 - Y prosesau asesu risg cyffredinol sy'n llywio gwneud penderfyniadau gweithredol
 - Ymateb y rheolwyr i asesu risg
- 194 Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n cynghori'r Bwrdd a'i bwyllgorau ar y system o reolaeth fewnol ac rwy'n cael fy nghefnogi wrth wneud hynny gan y TAG.
- 195 Mae'r TAG yn gyfrifol am gynnal polisiau a systemau rheoli risg cadarn a rheoli mewnlol, ac am reoli risgiau strategol o ddydd i ddydd sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a/neu Swyddfa Archwilio Cymru.

Asesiad risg

- 196 Ym mhob un o'i gyfarfodydd yn y cyfnod adrodd, ystyriodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg grynoded TAG o'r risgiau strategol allweddol sy'n wynebu'r sefydliad, ochr yn ochr ag adroddiad cofrestr risg manylach.
- 197 Ym mis Mehefin 2025, mabwysiadodd y Pwyllgor ddull mwy strwythuredig a chyson o gynnal adolygiadau 'archwilio dwfn' o risgiau strategol sy'n rhoi sicrwydd ychwanegol ynghylch a yw trefniadau rheoli risg yn gweithredu'n effeithiol yn ymarferol.
- 198 Roedd nifer o risgiau strategol allweddol yn amrywio yn ystod y cyfnod adrodd ac yn arbennig yn ymwneud ag amser y TAG a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Roedd y rhain yn cynnwys y risgiau a nodir yn y tabl isod, a oedd yn destun adolygiadau manwl gan y Pwyllgor.

Maes risg**Mesurau lliniaru cysylltiedig**

Sicrhau bod gennym strategaeth a chynllun gweithlu cyfannol a chadarn ar gyfer denu, cadw a datblygu staff ar draws y sefydliad cyfan.

Gall amseriad y cyfnod cyn yr etholiad gyfyngu ar welededd ac effaith strategol negeseuon etifeddol yr Archwilydd Cyffredinol.

Sefydlu perthnasoedd effeithiol gyda Senedd a Llywodraeth Cymru sydd wedi'u trawsnewid yn sylfaenol yn dilyn etholiadau 2026.

- Cafodd trefniadau cynllunio gweithlu strategol eu monitro'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac AD.
- Dechreuwyd gwaith ar adnewyddu ein fframwaith sgiliau digidol, er mwyn galluogi Archwilio Cymru i wneud defnydd da o ddatblygiadau technolegol ac addasu iddynt yn effeithiol.
- Gweithredwyd dull mwy cyson o gynllunio ar gyfer olyniaeth a chydnerthedd busnes, lle rydym yn osgoi gorddibynnu ar unigolion a sicrhau rhannu gwybodaeth a phrofiad hanfodol.
- Gwnaethom lansio rhaglen ddysgu a datblygu well gyda gwelliannau wedi'u hymgorffori i fynd i'r afael â gwendidau a nodwyd yn flaenorol.
- Datblygwyd strategaeth gyfathrebu glir ar gyfer negeseuon etifeddol, wedi'i rhannu'n gyfnodau cyn yr etholiad ac ar ôl yr etholiad.
- Dechreuodd yr Archwilydd Cyffredinol ymgysylltu â'r cyhoedd ar themâu etifeddiaeth sawl mis cyn diwrnod olaf busnes y Senedd.
- Targedwyd cyhoeddi allbynnau etifeddol yn ofalus ar draws ystod o gyfryngau i fanteisio i'r eithaf ar eu gwelededd a'u heffaith.
- Gwnaethom ddatblygu strategaeth gyfathrebu ar gyfer ymgysylltu â holl aelodau'r Senedd i esbonio ein cylch gwaith a thynnu sylw at bwysigrwydd ein gwaith.
- Paratowyd deunydd codi ymwybyddiaeth addas i'w rannu ag aelodau newydd y Senedd.
- Defnyddiwyd negeseuon etifeddol yr Archwilydd Cyffredinol i atgyfnerthu ymgysylltiad â phob plaid ac aelodau'r Senedd.

199 Rwy'n fodlon bod y risgiau hyn wedi cael eu monitro a'u rheoli'n effeithiol yn ystod y flwyddyn.

200 Rheolwyd nifer o risgiau'n llwyddiannus a'u tynnu oddi ar y gofrestr risgiau strategol yn ystod y cyfnod adrodd. Cafodd y risgiau naill ai eu cau'n llwyr neu eu hailfframio a'u hisgyfeirio i'r gofrestr risg weithredol i'w rheoli'n barhaus gan yr arweinydd risg perthnasol.

- 201 Rydym yn wynebu nifer o risgiau newydd eu nodi a risgiau parhaus yn 2026-27, sydd wedi'u cynnwys yn ein cofrestr risg strategol. Mae'r rhain yn cynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â'r canlynol:
- a Parhau i sefydlu perthnasoedd effeithiol gyda Senedd a Llywodraeth Cymru sydd wedi'u trawsnewid yn sylfaenol
 - b Cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg
 - c Sicrhau digon o adnoddau i gyflawni ein huchelgeisiau o ran technoleg a moderneiddio.
- 202 Byddaf yn parhau i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n dda ar y cyfan, bod rheolaethau mewnol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol, a lle mae gwendidau, byddaf yn sicrhau bod camau priodol ar waith i fynd i'r afael â nhw.

Llywodraethu gwybodaeth

- 203 Fel Archwilydd Cyffredinol, mae gen i fynediad eang at wybodaeth ar gyfer cyflawni fy swyddogaethau archwilio. Ochr yn ochr â'r hawliau mynediad statudol hyn, mae gen i gyfrifoldeb i sicrhau bod y wybodaeth a gafwyd yn cael ei diogelu'n briodol.
- 204 Yn fy rôl fel Prif Weithredwr, rwy'n atebol i'r Bwrdd am lywodraethu gwybodaeth y sefydliad, yn ogystal â bod yn rheolwr data fy hun fel Archwilydd Cyffredinol. Rwyf wedi dirprwyo'r ddwy swyddogaeth i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol.
- 205 Er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn bodloni gofynion diogelu data a chyfrifoldebau eraill ar gyfer diogelu gwybodaeth, mae gan Swyddfa Archwilio Cymru Bolisi Llywodraethu Gwybodaeth, Polisi Diogelwch Gwybodaeth a Pholisi Deallusrwydd Artiffisial a Mentrau Digidol. Mae'r polisiau hyn yn nodi cyfrifoldebau staff, gofynion prosesu, trefniadau monitro ac adrodd, a gwybodaeth am sut y gall staff gael arweiniad pellach.

Diogelu data

- 206 Yn ystod 2025-26, mae'r sefydliad wedi parhau i wneud gwaith i hyrwyddo cydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data – Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU a Deddf Diogelu Data 2018. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys hyfforddiant i staff, yn enwedig mewn perthynas â diogelu data yng nghyd-destun defnyddio AI.
- 207 Rydym wedi cadw cofnodion o ddigwyddiadau diogelwch gwybodaeth, fel colli gwybodaeth yn ddamweiniol. Mae pob digwyddiad yn y flwyddyn wedi bod yn risg isel, felly nid oes unrhyw un wedi'i adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

- 208 Rydym yn parhau i annog staff i adrodd cyn gynted ag y byddant yn ymwybodol o doriad ac rydym wedi ymrwymo i wella ein prosesau mewnol a diogelwch technegol yn barhaus.

Didwylledd a thryloywder

- 209 Rydym wedi ymrwymo i fod yn ddidwyll a thryloyw yn y ffordd rydym yn gweithredu fel busnes. Drwy ein Cynllun Cyhoeddiadau rydym yn sicrhau bod gwybodaeth benodol, fel cofnodion y Bwrdd, ar gael i'r cyhoedd yn rheolaidd.
- 210 Ym mlwyddyn ariannol 2025-26, cawsom 56 o geisiadau am wybodaeth. O'r ceisiadau a gafwyd yn ystod y flwyddyn a'r tri eisoes wrth law²⁹ a oedd yn ymwneud â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, gwnaethom fodloni'r dyddiad cau statudol o 20 diwrnod gwaith mewn 32 o achosion drwy ddarparu'r deunydd y gofynnwyd amdano, cymhwyso eithriadau perthnasol neu gadarnhau nad oedd y deunydd yn cael ei gynnal. Mewn pum achos arall, gofynnwyd am eglurhad angenrheidiol ond ni chawsom hynny, felly nid oeddem mewn sefyllfa i roi ymateb sylweddol. Gohiriwyd 19 cais y tu hwnt i'r amserlen statudol oherwydd anawsterau wrth gasglu deunydd perthnasol. Roedd tri achos yn parhau i fod ar agor o fewn yr amserlen statudol ar ddiwedd y flwyddyn.
- 211 Nid oeddem yn destun unrhyw adolygiadau gan y Comisiynydd Gwybodaeth yn 2025-26 mewn perthynas â'r ffordd rydym yn ymdrin â cheisiadau.

Chwythu'r chwiban (mewnol)

- 212 Mae'r Bwrdd yn ystyried nodi camwedd yn fewnol yn gyfraniad pwysig at reoli risg gorfforaethol a sicrhau llywodraethu da. Anogir staff Swyddfa Archwilio Cymru Gyfan i godi materion sy'n peri pryder am gamymddwyn sy'n dod i'w sylw tra yn y gwaith.
- 213 Mae ein Polisi Chwythu'r Chwiban yn adlewyrchu darpariaethau Deddf Datgelu Budd y Cyhoedd 1998 a gofynion y Safon Moesegol ar gyfer Archwilwyr. Mae'r Polisi yn nodi'r mecanwaith ar gyfer codi pryderon am foeseq a pholisi, yn ogystal ag ynghylch camwedd yn y gwaith. Fodd bynnag, ni chawsom unrhyw ddatgeliadau a oedd yn peri pryder yn ystod y cyfnod adrodd.
- 214 Er mwyn asesu effeithiolrwydd ein trefniadau chwythu'r chwiban, rydym yn ystyried yr hyn yr ydym wedi'i ddysgu o ddatgeliadau blaenorol, ac yn arolygu staff am eu hymwybyddiaeth o'u trefniadau a'u hyder yn y trefniadau bob blwyddyn.

29 Roedd tri achos yn parhau i fod ar agor o fewn yr amserlen statudol ar ddiwedd 2024-25.

- 215 Gofynnwyd i staff yn ein harolwg staff ym mis Hydref 2025 (yr ymatebodd 84% o staff iddo), i raddio eu hymateb i'r datganiadau canlynol ar raddfa cytuno'n gryf i anghytuno'n gryf:
- Rwy'n ymwybodol o sut i godi pryder am gamymddwyn (neu bryderon ynghylch ansawdd archwilio, barn broffesiynol neu werthoedd) o dan drefniadau chwythu'r chwiban Archwilio Cymru.
 - Rwy'n hyderus y byddai'n cael ei ymchwilio'n briodol pe bawn i'n codi pryder o dan drefniadau chwythu'r chwiban fy sefydliad.
- 216 Atebodd 91% o'r rhai a gwblhaodd yr arolwg 'cytuno'n gryf' neu 'cytuno' i'r cwestiwn ar ymwybyddiaeth, ac 86% i'r cwestiwn ar hyder.
- 217 Mae'r canlyniad hwn yn dynodi ymwybyddiaeth a hyder helaeth yn y trefniadau.

Atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd

- 218 Mae Archwilio Cymru wedi ymrwmo i greu diwylliant dim goddefgarwch o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd, a chynnal safonau moesegol uchel wrth ddefnyddio arian cyhoeddus.
- 219 Mae Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd a'r Cynllun Ymateb cysylltiedig yn cefnogi Archwilydd Cyffredinol Cymru fel Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru i weithredu trefniadau effeithiol ar gyfer mynd i'r afael â thwyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn erbyn ac o fewn Archwilio Cymru.
- 220 Mae cynnwys y Strategaeth a'r Cynllun Ymateb yn cydymffurfio â Chod ymarfer CIPFA ar reoli'r risg o dwyll a llygredd ac yn ystyried yr egwyddorion a nodir yn Safon Swyddogaethol Atal Twyll Llywodraeth y DU.
- 221 Ar sail wirfoddol, mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) - ymarfer bob dwy flynedd sy'n paru data ar draws sefydliadau a systemau i helpu cyrff cyhoeddus i nodi twyll a gordaliadau. Ni nodwyd unrhyw achosion o dwyll na gordaliad drwy ein cyfranogiad yn yr ymarfer NFI (2024-25) diweddaraf.



Adroddiad cydnabyddiaeth ariannol a staff

Adroddiad cydnabyddiaeth ariannol

Archwilydd Cyffredinol Cymru

222 Mae cydnabyddiaeth ariannol yr Archwilydd Cyffredinol yn cael ei bennu gan y Senedd ac, yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, caiff ei dalu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru (WCF) yn hytrach na chael ei dalu gan Swyddfa Archwilio Cymru. Er mwyn tryloywder, datgelir cydnabyddiaeth ariannol yr Archwilydd Cyffredinol yn yr adroddiad cydnabyddiaeth ariannol hwn. Yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yw Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru.

223 Penodwyd yr Archwilydd Cyffredinol presennol, Adrian Crompton, gan Ei Diweddar Fawrhydi y Frenhines Elizabeth II a dechreuodd ei swydd ar 21 Gorffennaf 2018 am gyfnod o wyth mlynedd na ellir ei adnewyddu.

Cyflog a chostau pensiwn yr Archwilydd Cyffredinol

	2025-26		2024-25	
	Cyflog gros	Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr	Cyflog gros	Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr
	£	£	£	£
Adrian Crompton	164,283	47,297	158,022	45,779

Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

224 Mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys pum aelod anweithredol a benodir gan y Senedd, dau aelod cyflogai etholedig, Archwilydd Cyffredinol Cymru, a'i aelod cyflogai enwebedig (yr aelod penodedig o'r Bwrdd).

- 225 Nid yw tâl aelodau anweithredol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn bensiynadwy a chaiff ei bennu gan y Senedd. Yn achos y Cadeirydd, mae'r gost yn cael ei dalu'n uniongyrchol gan WCF, yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Er mwyn tryloywder, datgelir cydnabyddiaeth ariannol y Cadeirydd yn yr adroddiad hwn.
- 226 Mae'r ddau aelod cyflogai etholedig yn cael eu penodi gan aelodau anweithredol y Bwrdd, yn dilyn pleidlais staff. Mae'r lwfans y maent yn ei dderbyn ar gyfer eu dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd yn cael ei bennu gan aelodau anweithredol y Bwrdd, nid yw'n bensiynadwy ac fe'i datgelir yn yr adroddiad hwn.
- 227 Mae'r aelod penodedig o'r Bwrdd yn derbyn lwfans yn unol â'r hyn a dderbynnir gan yr aelodau cyflogai etholedig.
- 228 Ni dderbyniodd yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw lwfansau ychwanegol ar gyfer ei ddyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd.

Mae'r wybodaeth ar dudalennau 82 i 91 yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff yn destun archwiliad.

Cyfanswm un ffigwr cydnabyddiaeth ariannol aelodau Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

	Cydnabyddiaeth/ Lwfans		Treuliau sy'n cynnwys treth ³⁰		Cyfanswm un ffigur o gydnabyddiaeth ariannol	
	2025-26	2024-25	2025-26	2024-25	2025-26	2024-25
	£	£	£	£	£	£
Aelodau'r Bwrdd ar 31 Mawrth 2026						
Ian Rees (Cadeirydd)	25,000	24,722	9,346	4,246	34,346	28,968
David Francis	12,500	12,500	401	95	12,901	12,595
Alison Gerrard ³¹	3,125	12,500		360	3,125	12,860
Michael Norman	12,500	10,417	2,049	2,870	14,549	13,287
Richard Thurston	12,500	10,417	535	191	13,035	10,608
Bethan Jones ³²	9,375	-	1,629	-	11,004	-

30 Gall aelodau'r bwrdd a'r pwyllgor anweithredol hawlio am deithio a threuliau ar gyfer busnes sy'n gysylltiedig ag Archwilio Cymru. Mae atebolrwydd treth personol y treuliau hyn yn cael ei setlo gan Swyddfa Archwilio Cymru.

31 Daeth penodiad Alison Gerrard i ben ar 30 Mehefin 2025

32 Penodwyd Bethan Jones i'r Bwrdd ar 1 Gorffennaf 2025.

	Cydnabyddiaeth/ Lwfans		Treuliau sy'n cynnwys treth ³⁰		Cyfanswm un ffigur o gydnabyddiaeth ariannol	
	2025-26	2024-25	2025-26	2024-25	2025-26	2024-25
	£	£	£	£	£	£
Anne Beegan ³³	4,167	4,167	-	-	4,167	4,167
Chris Bolton ³⁴	4,167	4,167	-	-	4,167	4,167
Darren Griffiths ³⁵	4,167	4,167	-	-	4,167	4,167
Cyn-aelodau'r Bwrdd						
Elinor Gwynn ³⁶	-	2,083	-	413	-	2,496
Cyfanswm	87,501	85,140	14,176	8,175	116,054	93,315

Aelodau anweithredol o'r pwyllgor

229 Mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru wedi penodi aelod annibynnol i wasanaethu ar ei Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC).

Cyfanswm un ffigur o gydnabyddiaeth ariannol aelodau ARAC

	Cydnabyddiaeth/ Lwfans		Treuliau sy'n cynnwys treth		Cyfanswm un ffigur o gydnabyddiaeth ariannol	
	2025-26	2024-25	2025-26	2024-25	2025-26	2024-25
	£	£	£	£	£	£
Owen Purcell ³⁷	5,080	2,917	216	318	5,296	3,235
Andrew Clark ³⁸	-	1,333	-	-	-	1,333
Cyfanswm	5,080	4,250	216		5,296	4,568

33 Mae Anne Beegan yn aelod etholedig o'r Bwrdd sy'n weithiwr. Mae'r lwfansau a ddatgelir uchod yn ymwneud â dyletswyddau aelodau'r Bwrdd yn unig.

34 Mae Chris Bolton yn aelod etholedig o'r Bwrdd sy'n weithiwr. Mae'r lwfansau a ddatgelir uchod yn ymwneud â dyletswyddau aelodau'r Bwrdd yn unig.

35 Mae Darren Griffiths yn aelod enwebedig o'r Bwrdd. Mae'r lwfansau a ddatgelir uchod yn ymwneud â dyletswyddau aelodau'r Bwrdd yn unig.

36 Daeth tymor penodi Elinor Gwynni ben ar 31 Mai 2024

37 Penodwyd Owen Purcell yn aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg o 1 Medi 2024

38 Penodwyd Andrew Clark yn aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg o 1 Gorffennaf 2021 tan 30 Mehefin 2024.

Staff Swyddfa Archwilio Cymru

- 230 Mae polisi cyflog Swyddfa Archwilio Cymru a manylion yr ystodau cyflog ar gyfer yr holl staff ar gael ar ein [gwefan](#).
- 231 Mae pob aelod o staff yn cael ei gyflogi gan Swyddfa Archwilio Cymru ar y telerau ac amodau y mae'r Bwrdd yn eu pennu. Mae cydnabyddiaeth ariannol pob aelod o staff yn destun adolygiad cyfnodol o dan strategaethau a osodir gan y Bwrdd ac mewn ymgynghoriad ag undebau llafur o dan gytundeb ar y cyd. Mae cydnabyddiaeth ariannol yn bensiynadwy o dan Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Ceir manylion am y cynllun hwn yn www.civilservicepensionscheme.org.uk.
- 232 Fel arfer, mae staff Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal penodiadau penagored, oni bai eu bod ar gontractau tymor penodol. Byddai terfynu'n gynnar, heblaw am gamymddygiad, yn arwain at yr unigolyn yn derbyn iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.
- 233 Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn talu taliadau bonws sy'n gysylltiedig â pherfformiad i unrhyw aelod o staff ond mae trefniadau arfarnu perfformiad ar waith sy'n atal cynnydd cyflog cynyddrannol os yw perfformiad yn cael ei reoli'n ffurfiol nes iddo gyrraedd brig ei fand cyflog.

Cyfanswm un ffigur cydnabyddiaeth ariannol uwch-reolwyr

- 234 Darperir manylion cydnabyddiaeth ariannol a buddion pensiwn y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn y tabl canlynol.

Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2026

	Cyflog		Buddion Pensiwn ³⁹	Cyfanswm un ffigur y gydnabyddiaeth ariannol
	Bandiau o £5,000	I'r £1,000 agosach		Bandiau o £5,000
Kevin Thomas	145-150	21	170-175	
Ann-Marie Harkin	145-150	110	255-260	
Derwyn Owen ⁴⁰	80-85	42	125-130	
Anne-Louise Clark ⁴¹	45-50	18	65-70	

³⁹ Mae gwerth buddion pensiwn a gronwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi â 20. Mae'r cynnydd real yn eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiadau oherwydd trosglwyddiad hawliau pensiwn

⁴⁰ Penodwyd Derwyn Owen yn gyfarwyddwr Gweithredol Moderneiddio Archwilio ac Effaith 01/08/2025

⁴¹ Gadawodd Anne-Louise Clark Archwilio Cymru 31/07/2025

Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025

	Cyflog	Buddion Pensiwn	Cyfanswm un ffigur y gydnabyddiaeth ariannol
	Bandiau o £5,000	I'r £1,000 agosach	Bandiau o £5,000
Kevin Thomas	140-145	131	270-275
Ann-Marie Harkin	135-140	175	310-315
Anne-Louise Clark	130-135	51	180-185

235 Cyhoeddir gwybodaeth am dreuliau aelodau'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol ar ein [gwefan](#).

Hawliau pensiwn aelodau'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol

236 Fel pob aelod o staff, mae gan aelodau o'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol fynediad i Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil hefyd.

	Pensiwn cronodig adeg oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2026	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn adeg oedran pensiwn	CETV ar 31Mawrth 2026	CETV ar 31Mawrth 2025	Cynnydd gwirioneddol mewn CETV
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Kevin Thomas	95-100	0-2.5	2,012	1,896	3
Ann-Marie Harkin	65-70 a chyfandaliad o 165-170	5-7.5 a chyfandaliad o 5-7.5	1,575	1,443	102
Anne-Louise Clark	10-15	0-2.5	223	200	15
Derwyn Owen	55-60	0-2.5	1,051	975	31

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV)

- 237 Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Cyfwerth (CETV) yw gwerth cyfalafu a asesir yn actiwaraid buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion sy'n cael eu prisio yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn priod annisgwyl sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn rôl uwch y mae datgeliad yn berthnasol iddo.
- 238 Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Mae CETVs yn cael eu cyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a allai fod yn ddyledus pan gymerir buddion pensiwn.
- 239 Mae'r buddion pensiwn cronedig a gynhwysir yn y tabl hwn ar gyfer unrhyw unigolyn yr effeithir arno gan Unioni Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus wedi'u cyfrifo yn seiliedig ar eu cynnwys yn y cynllun etifeddiaeth ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, yn dilyn dyfarniad McCloud. Mae Unioni Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus yn berthnasol i unigolion a oedd yn aelodau, neu'n gymwys i fod yn aelodau, o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus ar 31 Mawrth 2012 ac a oedd yn aelodau o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Mae'r sail ar gyfer y cyfrifiad yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol bod aelodau yr effeithir arnynt wedi'u cyflwyno'n ôl i'r cynllun etifeddiaeth perthnasol ar gyfer y cyfnod unioni ac y bydd hyn yn berthnasol oni bai bod yr aelod yn arfer ei hawl ar ôl ymddeol i benderfynu yn lle hynny i dderbyn buddion a gyfrifwyd o dan delerau'r cynllun Alpha ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022.

Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

240 Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronodig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y cyflogai (gan gynnwys gwerthu unrhyw fuddion a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio marchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Datgelu cyflog teg

241 Mae'n ofynnol i ni ddatgelu'r berthynas rhwng y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf yn Archwilio Cymru a chydabyddiaeth ariannol cyfartalog ein gweithlu. Yn seiliedig ar adolygiadau rheolaidd o'n sefydliad a'n cyflogau, credwn fod y gymhareb cyflog canolrifol yn gyson â pholisïau cyflog a datblygiad ein gweithwyr ar y cyfan.

242 Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol yn cynnwys cyflog ac nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwr, taliadau diswyddo na CETV pensiynau.

	2025-26	2024-25	% newid
Canolbwynt cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf (£'000)	£137,654	£132,360	4%
Cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol cyfartalog yn seiliedig ar staff cyfwerth ag amser llawn	£56,825	£54,651	4%

243 Mae'r tabl canlynol yn nodi'r berthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf a chyflog canolrifol, cydnabyddiaeth ariannol 25 a 75 canradd ein gweithlu.

		2025-26	2024-25
75 canradd	Cyfanswm tâl	£70,999	£68,268
	Cymhareb tâl	1.94	1.94
Canolrifol	Cyfanswm tâl	£56,199	£54,037
	Cymhareb tâl	2.65	2.45
25 canradd	Cyfanswm tâl	£38,623	£37,673
	Cymhareb tâl	3.56	3.52
Ystod cydnabyddiaeth ariannol		£24,693- £149,017	£23,743- £143,285

244 Yn 2025-26, ni chafodd unrhyw weithwyr gydnabyddiaeth ariannol uwch na'r cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf (2024-25: dim).

245 Er mwyn tryloywder, roedd cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol yr Archwilydd Cyffredinol sef £164,283 (ac eithrio cyfraniadau pensiwn) yn cynrychioli 2.92 gwaith cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol ganolrifol ar gyfer Archwilio Cymru (2023-24: £158,022 cymhareb: 2.92).

Ymrwymadau oddi ar y gyflogres

246 Nid oedd gennym unrhyw gontractau yn ystod 2025-26 a oedd yn bodloni diffiniad Trysorlys EF o ymrwymadau oddi ar y gyflogres (2024-25: dim)⁴².

Dileu swyddi, ymddeoliadau cynnar, a diswyddiadau

247 Mae trefniadau diswyddo (gan gynnwys ymadael gwirfoddol) yn cael eu gweithredu yn unol â Chynllun lawndal y Gwasanaeth Sifil a gofynion cynllunio'r gweithlu.

248 Cost taliadau diswyddo yn 2025-26 oedd £97,032, (2024-25: £13,665).

249 Yn ystod 2025-26, cafodd 1 gweithiwr (2024-25: 1) daliad diswyddo fel y nodir isod.

250 Ni chafwyd unrhyw ddiswyddiadau gorfodol yn 2025-26 (2024-25: dim)

Nifer y pecynnau ymadael yn ôl band costau

	2025-26	2024-25
<£15,000	-	1
£25,001-£50,000	2	-
Cyfanswm	2	1

Adroddiad staff

Uwch-arweinyddiaeth

251 Mae'r tabl canlynol yn nodi nifer yr uwch-aelodau o staff yn ôl band cyflog ar 31 Mawrth 2026

	31 Mawrth 2026	31 Mawrth 2025
Band A (£120,609-£149,017)	3	3
Band C (£92,585-£114,864)	8	8
Cyfanswm	11	11

Niferoedd staff

252 Cynyddodd nifer cyfartalog y staff a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn o 3, gan adlewyrchu effaith contractau tymor penodol a ddechreuodd hanner ffordd drwy gyfnod adrodd 2024-25 ar y flwyddyn gyfan.

	2025-26	2024-25
Nifer cyfartalog y staff parhaol cyfwerth ag amser llawn, yn y DU, a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn	217	224
Nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn, yn y DU, ar gontractau tymor penodol a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn	73	62
Contractwyr archwilio ac arolygu (nifer cyfartalog cyfwerth ag amser llawn yn ystod y flwyddyn)	1	2
Cyfanswm	291	288

Staff a chostau cysylltiedig

	2025-26	2024-25
	£'000	£'000
Cyflogau staff	16,227	15,220
Staff ar secondiad	-	-
Staff contract tymor byr	370	364
Cydnabyddiaeth ariannol y pwyllgor anweithredol	68	67
Costau nawdd cymdeithasol	2,209	1,734
Costau pensiwn (PCSPS)	4,684	4,397
Costau pensiwn (pensiynau rhanddeiliaid)	22	22
	23,580	21,804
Tanysgrifiadau	132	145
	23,712	21,949
Contractwyr archwilio ac arolygu	54	87
Costau dileu swydd, ymddeoliad cynnar, a diswyddo	103	36
Namyn yr arian a gafwyd mewn perthynas â secondiadau allanol	-	-
	23,869	22,072

Gwasanaethau wedi'u prynu i mewn⁴³

	2025-26	2024-25
	£'000	£'000
Costau ymchwil ac ymgynghori eraill	249	364
	249	364

253 Mae'r costau hyn yn ymwneud â gwasanaethau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â swyddogaethau archwilio, arolygu, cyngor neu ymchwil. Yn 2024-25, gwnaethant hefyd gynnwys costau dwy flynedd sy'n gysylltiedig â'r Fenter Twyll Genedlaethol.⁴⁴

254 Mae costau ymgynghori ar gyfer 2025-26 yn cynnwys⁴⁵:

- £82,000 ar gyfer Sicrhau Ansawdd
- £47,000 ar gyfer paru data NFI
- £28,000 ar gyfer paratoi dogfen Gwerthuso'r Bwrdd.
- £10,000 ar gyfer Moderneiddio Archwilio
- £75,000 am wasanaethau arbenigol mewn perthynas â'n harchwiliadau o gyfrifon

255 Ni wnaed unrhyw daliadau i'n harchwilwyr allanol am wasanaethau ychwanegol yn 2025-26 (2024-25: £dim).

Nid yw'r wybodaeth ganlynol ar dudalennau 92 i 94 yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff yn destun archwiliad.**Polisiau staff, cydraddoldeb ac amrywiaeth**

256 Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru ddilyn y fframwaith amddiffyn rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, a dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

257 Mae gennym hefyd gyfrifoldeb i gynnal y confensiynau a nodir yn Neddf Hawliau Dynol 1998. Rydym wedi ymrwmo i ddarparu amgylchedd gwaith sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth pawb, ein staff ein hunain a'r rhai yr ydym yn dod i gysylltiad â nhw yn ystod ein gwaith, ac rydym yn cefnogi'n llawn hawliau pobl i gael eu trin ag urddas a pharch.

43 Nid yw'n cynnwys TAW.

44 Nid yw'n destun archwiliad.

45 Nid yw'n destun archwiliad.

- 258 Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn amlinellu ein hymrwymiad parhaus i gydraddoldeb a'n hamcanion cysylltiedig. Mae ein Hadroddiad Cydraddoldeb blynyddol yn darparu gwybodaeth am faterion cyflogaeth fel materion amrywiaeth a thriniaeth gyfartal mewn cyflogaeth. Bydd ein hadroddiad ar gyfer 2025-26 yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn 2026 a bydd hyn yn cynnwys manylion y bwlch cyflog rhywedd ar gyfer y flwyddyn.
- 259 Mae ein Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn amlinellu ein hymrwymiad i sicrhau triniaeth deg a chyfartal i bob aelod o staff sydd â nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys nam) ym mhob agwedd ar gyflogaeth. Mae'r polisi yn darparu ar gyfer cydraddoldeb wrth ddewis ar gyfer cyflogaeth, recriwtio, dyrchafu, dysgu a datblygu a/neu unrhyw fudd arall, yn seiliedig ar fedrusrwydd a gallu yn unig yn unol â'n dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth gysylltiedig.

Cyfansoddiad y staff (nifer y bobl a gyflogwyd ar 31 Mawrth 2026)

	2025/2026				2024/2025			
	Dynion	Menywod	Byddai'n well gennyf beidio â dweud	Cyfanswm	Dynion	Menywod	Byddai'n well gennyf beidio â dweud	Cyfanswm
Uwch-arweinyddiaeth	8	2	-	10	9	2	-	11
Cyflogeion eraill	134	155	10	299	128	161	8	297
Cyfanswm	142	157	10	309	137	163	8	308

Absenoldeb oherwydd salwch


	2025-26	2024-25
	Diwrnodau	Diwrnodau
Cyfartaledd y diwrnodau a gollwyd fesul aelod o staff	5.9	8.7
• Oherwydd absenoldeb tymor byr	2.4	2.9
• Oherwydd absenoldeb hirdymor (cyfnodau > 21 diwrnod)	3.5	5.8

- 260 Mae lefelau salwch ymhlith staff yn 2025-26 wedi gostwng 2.8 diwrnod o'i gymharu â 2024-25, gyda lefelau'n gostwng ar gyfer salwch tymor byr a hirdymor. Roedd cyfran yr amser a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch yn cyfateb i 3.3% (Dangosydd Perfformiad Allweddol 14) – islaw ein targed o 4%.
- 261 Er mwyn helpu ein gweithwyr i reoli eu hiechyd, mae gennym ar waith brosesau sgrinio iechyd, brechiadau blynyddol rhag y fflw, Rhaglen Cymorth i Weithwyr (EAP), hyrwyddwyr iechyd meddwl, a rhaglen o ddigwyddiadau llesiant gyda 19 o hyrwyddwyr llesiant ar draws y sefydliad yn darparu cymorth o ddydd i ddydd i weithwyr.

Ein gweithlu

	2025-26	2024-25
	%	%
Patrymau gwaith		
Gweithwyr rhan-amser fel canran o'r cyfanswm yn ôl rhywedd	16.8	16.9
• ar gyfer dynion	9.2	9.5
• ar gyfer menywod	24.2	23.9
• ar gyfer y rhai y mae'n well ganddynt beidio â dweud	10	-
Math o gontract cyflogaeth		
Canran y staff ar gontractau parhaol	72.2	74.7
Trosiant		
Canran cyfradd trosiant staff blynyddol	10.8	10.7

Mae'r graff canlynol yn dangos cyfrannau perthnasol gweithwyr rhan-amser a llawn-amser yn ôl rhywedd ar draws y gweithlu cyfan.



- 262 Bu gostyngiad bach yng nghanran y gweithwyr rhan-amser o'i gymharu â 2024-25. Priodolir hyn i gynnydd mewn gweithwyr llawn amser o un cyfwerth ag amser llawn.
- 263 Gostyngodd cyfran y staff ar gontractau cyflogaeth parhaol ychydig yn 2025-26. Mae cyfran y staff sydd â chontractau dros dro yn cynnwys yn bennaf hyfforddeion graddedig a phrentisiaid ar gontractau hyfforddi tymor penodol a'n staff archwilio tymhorol.
- 264 Mae ein cyfradd trosiant staff flynyddol yn parhau i fod yn gyson â 2024-25.

Alldro adnoddau ac adroddiad yr archwilydd

Crynodeb o'r alldro adnoddau 2025-26

Mae'r wybodaeth ar dudalennau 95 i 98 yn destun archwiliad.

265 Mae'r datganiad hwn yn darparu cymhariaeth o'r Amcangyfrif ar gyfer 2025-26, fel y'i pleidleisiwyd gan y Senedd, gydag incwm a gwariant gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn.

Crynodeb o'r alldro adnoddau 2025-26

Noder	Amcangyfrif 2025-26			Alldro 2025-26			Alldro 2024-25	
	Gwariant Gros	Incwm	Cyfanswm Net	Gwariant Gros	Incwm	Cyfanswm Net	Allbwn net o'i gymharu â'r Amcangyfrif	Cyfanswm Net
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000		£'000
SORO1 a 2 Cyfanswm Adnoddau	28,790	(18,610)	10,180	27,786	(18,529)	9,257	(923)	8,595
SORO3 a 4 Gofyniad arian parod net	9,625	-	9,625	-	-	9,279	(346)	7,125

266 Yn deillio o weithrediadau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26:

- Roedd cyfanswm yr alldro net ar adnoddau refeniw £907,000 yn llai na'r adnoddau net a gymeradwywyd sef £9,713,000.
- Roedd yr alldro ar wariant cyfalaf £16,000 yn llai na'r gyllideb gyfalaf gymeradwy sef £467,000. Mae hyn yn cynnwys cyfalafu dau Ased Hawl i Ddefnyddio (lesoedd eiddo) o dan IFRS16.
- Dangosir bod gweddill yr arian parod a gedwir gan Swyddfa Archwilio Cymru (£346,000) yn ddyledus i Gronfa Gyfunol Cymru (WCF) a chaiff ei ddychwelyd drwy addasiad gweinyddol yn 2026-27. Mae hyn yn cynnwys £58,000 mewn perthynas â chyfraniadau Yswiriant Gwladol i'w dychwelyd i'r gronfa. (Gweler Nodyn SORO 4).

267 Darperir esboniad o gost-effeithlonrwydd yn Swyddfa Archwilio Cymru yn y crynodeb rheolaeth ariannol ar dudalen 52.

268 Mae incwm ffioedd archwilio yn cael ei lywodraethu gan y Cynllun Ffioedd a gymeradwywyd gan y Senedd. Mae dadansoddiad o'r incwm hwn wedi'i gynnwys yn Nodyn 1 i'r Datganiadau Ariannol.

Nodiadau i'r crynodeb o'r alldro adnoddau

Nodyn SORO1: dadansoddiad o alldro adnoddau net 2025-26

Alldro 2024-25		Amcangyfrif 2025-26	Alldro 2025-26	Amrywiant	Rheswm dros amrywiant sylweddolo'i gymharu â'r Amcangyfrif
£'000		£'000	£'000	£'000	
	Treuliau				
21,301	Costau staff	23,749	23,100	(649)	Swyddi gwag staff mewn rolau nad ydynt yn ennill ffioedd a rolau staff dan hyfforddiant
241	Teithio a chynhaliaeth	352	236	(116)	Arbedion a nodwyd yn ystod y flwyddyn
710	Llety	718	658	(60)	Effeithlonrwydd parhaus mewn gwariant ystadau
444	TAW na ellir ei adennill	500	503	3	
630	TGCh	683	584	(99)	Arbedion a nodwyd yn ystod y flwyddyn
320	Llywodraethu Archwilio Cymru	345	345	-	
395	Hyfforddiant allanol	368	400	32	Buddsoddiad wedi'i gynllunio o arbedion mewn cyllidebau eraill
161	Costau NFI	95	47	(48)	Defnyddiwyd elfen o'r cyllid hwn i ariannu rôl newydd yn ein tîm Dadansoddeg Data
1,566	Cyflenwadau a gwasanaethau eraill	1,513	1,462	(51)	Buddsoddiad wedi'i gynllunio o arbedion mewn cyllidebau eraill
25,768	Cyfanswm Gwariant	28,323	27,335	(988)	
	Incwm				
(17,092)	Ffioedd archwilio	(17,612)	(17,301)	311	Gwaith sydd ei angen i glirio hen archwiliadau fel rhan o fynd i'r afael â'r ôl-groniad

Alldro 2024-25		Amcangyfrif 2025-26	Alldro 2025-26	Amrywiant	Rheswm dros amrywiant sylweddolo'i gymharu â'r Amcangyfrif
£'000		£'000	£'000	£'000	
(1,331)	Ffioedd ardystio grant	(998)	(1,228)	(230)	Mwy o waith wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn
(14)	Incwm arall	-	(1)	(1)	
961	Incwm yn fwy na'r amcangyfrif	-	-	-	
(17,476)	Cyfanswm incwm	(18,610)	(18,529)	81	
8,292	Adnoddau refeniw net	9,713	8,806	(907)	
303	Adnoddau cyfalaf	467	451	(16)	

Nodyn SORO 2 – Cysoni alldro adnoddau â gwariant net

	2025-26	2024-25
	£'000	£'000
Cyfanswm adnoddau refeniw	8,806	8,292
Incwm yn fwy na'r amcangyfrif	-	(961)
Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr	8,806	7,331

Nodyn SORO 3: Cysoni alldro adnoddau net â gofyniad arian parod net

	2025-26			2024-25
	Amcangyfrif	Alldro	Amrywiant	Alldro
	£'000	£'000	£'000	£'000
Adnoddau refeniw	9,713	8,806	(907)	8,292
Adnoddau cyfalaf	467	451	(16)	303
Addasiadau				
Eitemau nad ydynt yn arian parod (dibrisiant)	(608)	(263)	345	(223)
Taliadau rhent prydles	200	333	133	108
Cyfalafu ased ROU	(187)	(190)	(3)	-

	2025-26			2024-25
	Amcangyfrif	Alldro	Amrywiant	Alldro
	£'000	£'000	£'000	£'000
Symudiadau mewn cyfalaf gweithio ac eithrio arian parod:	40	-	(40)	
• Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau derbyniadwy a gwaith ar y gweill	-	28	28	(914)
• (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau taladwy ac incwm gohiriedig	-	469	469	885
• Cynnydd mewn darpariaethau	-	(59)	(59)	(49)
Incwm yn fwy na'r Amcangyfrif	-	-	-	(961)
Cyfanswm y gofyniad arian parod net	9,625	9,279	(346)	7,125

Nodyn SORO 4 – Cysoni gofyniad arian parod net â chynnydd mewn arian parod

	2025-26	2024-25
	£'000	£'000
Gofyniad arian parod net	(9,279)	(7,125)
Arian parod sy'n ddyledus gan WCF (cyflenwad)	9,625	9,127
Symiau sy'n ddyledus gan WCF heb eu tynnu		(1,483)
Symiau a ddychwelwyd i WCF	(519)	(294)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod	(173)	225

Nodyn SORO 5 – Cysoni â'r datganiad o lif arian parod

	2025-26	2024-25
	£'000	£'000
Arian parod sy'n ddyledus gan WCF (cyflenwad)	9,625	9,127
Symiau sy'n ddyledus gan WCF heb eu tynnu	-	(1,483)
Swm a gydnabyddir yn y datganiad o lif arian parod	9,625	7,644

- 269 Pleidleisir ar wariant ac incwm Swyddfa Archwilio Cymru yn y dyfodol yn flynyddol gan y Senedd.
- 270 Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn ymwybodol o unrhyw rwymedigaethau annisgwyl o bell a fydd yn effeithio ar gynlluniau gwariant tymor hir.
- 271 Mae unrhyw daliadau arbennig a cholledion datgeladwy yn cael eu datgelu yn Nodyn 14 i'r Datganiadau Ariannol.

Adroddiad yr archwilydd annibynnol i'r Senedd**Barn ar y datganiadau ariannol**

- 272 Rydym yn ardystio ein bod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 o dan Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Mae'r datganiadau ariannol hyn yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lif Arian Parod, y Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr, a nodiadau cysylltiedig gan gynnwys polisïau cyfrifyddu sylweddol. Rydym hefyd wedi archwilio'r Crynodeb o Alldro Adnoddau a'r nodiadau cysylltiedig a'r Adroddiad Cydnabyddiaeth ariannol a Staff a ddisgrifir yn yr adroddiad fel un sydd wedi'i archwilio.
- 273 Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw cyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

274 Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion Swyddfa Archwilio Cymru ar 31 Mawrth 2026 ac o'i gostau gweithredu net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Barn ar reoleidd-dra'r datganiadau ariannol

275 Rydym wedi ymgymryd â gwaith, fel sy'n ofynnol o dan Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, i gael sicrwydd rhesymol bod gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef wedi'i wneud yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu a'r arian y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu ddibenion penodol, heb ei wario heblaw at y diben neu'r dibenion hwnnw.

276 Yn ein barn ni, ym mhob agwedd berthnasol:

- mae'r gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef wedi'i dynnu'n gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu;
- nid yw'r arian y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu ddibenion penodol, wedi'i wario heblaw at y diben neu'r dibenion hwnnw.

Sail y farn ar y datganiadau ariannol

277 Gwnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs (DU)) a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol yn ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar Swyddfa Archwilio Cymru yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

278 Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer ein barn.

Sail ar gyfer y farn ar reoleidd-dra'r datganiadau ariannol

279 Mae'n ofynnol i ni gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef wedi'i wneud yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac nad yw'r arian hwnnw y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu ddibenion penodol, wedi'i wario heblaw at y diben neu'r dibenion hwnnw. Rydym wedi cynnal ein gwaith yn unol â'r Datganiad o Arfer a Argymhellir, Nodyn Ymarfer 10 archwiliad o ddatganiadau ariannol cyrff sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig yn hyn o beth.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

- 280 Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru o sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.
- 281 Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i wneud, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Swyddfa Archwilio Cymru i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r adeg y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.
- 282 Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

283 Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilydd arnynt. Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad perfformiad a'r adroddiad atebolrwydd. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau y nodir yn wahanol yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arni.

284 Ein cyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn sylweddol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos ei bod wedi'i cham-ddatgan yn sylweddol fel arall. Os byddwn yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i ni benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddwn, yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad perthnasol yn y wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd ar y ffaith honno.

285 Nid oes gennym ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

286 Yn ein barn ni:

- mae'r Crynodeb o Alldro Adnoddau a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013;
- mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol

Cyfrifoldebau Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

287 Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a nodir ar dudalen 65, mae Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi golwg wir a theg, ac am reolaeth fewnol o'r fath y mae Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn pennu ei bod yn angenrheidiol er mwyn paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad materol, boed oherwydd twyll neu wall.

288 Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am asesu gallu Swyddfa Archwilio Cymru i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol, oni fod y Senedd yn bwriadu diddymu Swyddfa Archwilio Cymru heb barhau â'i gweithrediadau neu nad oes ganddi ddewis arall realistig ond gwneud hynny.

289 Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef wedi'i dynnu'n gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac nad yw'r arian hwnnw y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu ddibenion penodol, wedi'i wario heblaw at y diben neu'r dibenion hwnnw.

Cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol

290 Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyfan gwbl yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll

291 Mae anghysondebau yn enghreifftiau o beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Amcanion ein harchwiliad yw cael digon o dystiolaeth archwilio briodol ynghylch cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau sy'n cael effaith uniongyrchol ar benderfynu symiau a datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, i gynnal gweithdrefnau archwilio er mwyn helpu i nodi achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau eraill a allai gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol, ac i ymateb yn briodol i ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

292 Mewn perthynas â thwylo, amcanion ein harchwiliad yw nodi ac asesu'r risg o gamddatganiad perthnasol o'r datganiadau ariannol oherwydd twyll, cael dystiolaeth archwilio briodol ddigonol ynghylch y risgiau a aseswyd o gamddatganiad perthnasol oherwydd twyll drwy ddylunio a gweithredu ymatebion priodol, ac ymateb yn briodol i dwyll neu achosion tybiedig o dwyll a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

- 293 Fodd bynnag, prif gyfrifoldeb y rheolwyr, gyda goruchwyliaeth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, yw sicrhau bod gweithrediadau'r endid yn cael eu cynnal yn unol â darpariaethau deddfau a rheoliadau ac ar gyfer atal a chanfod twyll.
- 294 Wrth nodi ac asesu risgiau camddatganiad materol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, gwnaeth tîm ymgysylltu ag archwiliadau'r canlynol:
- cael dealltwriaeth o rôl Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys y fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithredu ynddo a sut mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cydymffurfio â'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddio;
 - holi i'r rheolwyr, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, sut y maent yn nodi ac yn asesu risgiau afreoleidd-dra, gan gynnwys unrhyw achosion gwirioneddol, tybiedig neu honedig hysbys o dwyll;
 - trafod materion ynghylch diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a sut y gallai twyll ddigwydd, gan gynnwys asesiad o sut a ble y gallai'r datganiadau ariannol fod yn agored i dwyll.
- 295 O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, rydym o'r farn mai'r cyfreithiau a'r rheoliadau mwyaf arwyddocaol sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol yw cyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 sy'n cwmpasu Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FRoM 2024-25) sy'n cymhwyso Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU. Gwnaethom gynnal gweithdrefnau archwilio i ganfod diffygion cydymffurfio a allai gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol, gan gynnwys adolygu datgeliadau datganiadau ariannol.
- 296 Y deddfau a'r rheoliadau mwyaf arwyddocaol sy'n cael effaith anuniongyrchol ar y datganiadau ariannol yw Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 a Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a Deddf Diogelu Data 2018. Gwnaethom gynnal gweithdrefnau archwilio i holi rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a yw Swyddfa Archwilio Cymru yn cydymffurfio â'r gyfraith a'r rheoliadau hyn, arolygu cofnodion pwyllgorau ac adolygu datgeliadau datganiadau ariannol ar gyfer unrhyw doriadau posibl.

- 297 Nododd y tîm ymgysylltu â'r archwiliad y risg o ddiystyru rheolaethau rheoli a chydabod refeniw fel y meysydd lle roedd y datganiadau ariannol yn fwyaf agored i gamddatganiad materol oherwydd twyll. Roedd y gweithdrefnau archwilio a gynhaliwyd yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, brofi cofnodion dyddlyfr â llaw ac addasiadau eraill a gwerthuso'r rhesymeg busnes mewn perthynas ag unrhyw drafodiadau a thrafodiadau arwyddocaol, anarferol a wnaed y tu allan i gwrs arferol busnes, gan gytuno bod refeniw yn cael ei gydnabod yn unol ag IFRS15 ac IAS37, asesu a herio'r amcangyfrifon a wnaed gan reolwyr o ran eu hasesiad a digonolrwydd darpariaethau ar gyfer symiau na ellir eu hadfer, sy'n cynnwys adolygu a yw digwyddiadau sy'n digwydd hyd at ddyddiad adroddiad yr archwilwyr yn cefnogi'r meini prawf cysoni diwedd blwyddyn, a phrofi cywirdeb a dibynadwyedd data y mae'r rheolwyr wedi dibynnu arno.
- 298 Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol i'w gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: <http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities>. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad ein harchwilydd.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am farn rheoleidd-dra ar y datganiadau ariannol

- 299 Rydym hefyd yn gyfrifol am roi barn sicrwydd rhesymol bod gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef wedi'i wneud yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu, ac nad yw'r arian hwnnw y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu ddibenion penodol, wedi'i wario heblaw at y diben neu'r dibenion hwnnw.

Defnyddio'n hadroddiad

